# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 5 Gorffennaf 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# YMA O HYD!



Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd




Cymru 1 Wcráin 0



Y Maer a'r Faeres, Rhys a Lynn Thomas yn cyflwyno siec am £1856.55 i Beth o'r elusen Cymorth i Ferched Dinbych yn dilyn eu cyngerdd llwyddiannus yn Neuadd y Dref. Roedd hefyd siec am yr un swm i Sonia o elusen Gofalwyr Ifanc Dinbych.



Mae mam a llystad Nataliia wedi cael fisas i aros yng Nghymru bellach. Dyma lun ohonyn nhw ar ben Twthill yng Nghaernarfon. t13



Yuliia a'r merched yn ystod amserodd hapusach cyn i ryfel daro'u gwlad, Yr Wcráin t13



Chris a Nia ym Mhalas Buckingham t.22



Glenys ac Olwen ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni t4

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifion Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Hydref Martha Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

Mynediad am ddim, dim rhagbrofion, tri pafiliwn modern i'r cystadleuwyr, y prif seremonïau yn yr awyr agored, Gŵyl Triban, yr Arddorfa a digon i neud ar y maes i bawb. Pa well rysáit am Steddfod lwyddiannus, gyffrous ac felly y bu!

Penllanw'r wythnos oedd asbri a phrysurdeb pnawn Sadwrn gyda'r Pafiliwn Gwyrdd a'r Gornel Ganlyniadau yn llawn - diolch i'r aelwydydd a'u cefnogwyr. Braf oedd gweld llaweroedd wedyn yn tyrru i Ŵyl Triban ond roedd prysurdeb, brwdfrydedd, hwyl a chyffro ar hyd yr wythnos gyda 118,000 wedi ymweld â'r maes.

Mae cymaint wedi newid ers Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929. Roedd y Steddfod eleni ar ei newydd wedd o'i chymharu â phob Eisteddfod yr Urdd arall – mae hi yma o hyd ac yn wahanol, er gwell!

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Steddfod – diolch am roi Dinbych, Dyffryn Clwyd a Sir Ddinbych ar y map unwaith eto. Pa bryd gawn ni Steddfod arall ar gaeau Kilford?

Ar gaeau llon ein dyffryn
Profwyd balchder bro llawn egni.
Ieuenctid heddiw ar hyd y daith
Yw gobaith brwd ein heniaith.

---

Cartref Y Bigwn ar faes y Steddfod oedd pabell Mentrau Iaith Cymru oedd yn cynnwys Menter Iaith Sir Ddinbych ac yno y bu ein gwirfoddolwyr yn ceisio hyrwyddo, poblogeiddio a gwerthu rhifyn Mehefin o'r Bigwn ac yn rhannu ôl-rifynnau. Braf oedd croesawu hen ffrindiau'r Bigwn ac eisteddfodwyr o bell ac agos. Mae mwy o bobol yn adnabod enw ein papur bro bellach!! A chrand iawn oedd ein baner newydd!

Prysur a gweithgar iawn oedd staff y Mentrau Iaith ar y stondin gyda gwahanol weithgareddau cyffrous ac amrywiol i blant a phobol ifanc wedi eu trefnu yn ystod yr wythnos. Diolch am y croeso a gawsom ar eu stondin ac am y cydweithrediad.

---

Hogyn ysgol gynradd oeddwn i pan gyrhaeddodd tîm pêl-droed Cymru gystadleuaeth Cwpan y Byd yn Sweden yn 1958.

Roeddwn wrth fy modd yn cicio pêl efo ffrindiau yn y cae chwarae yn Llanllyfni yn y cyfnod hwnnw ond wyddwn i ddim ar y pryd am lwyddiant tîm pêl-droed Cymru heb sôn am enwau'r chwaraewyr. Pam sgwni? Doedd dim gemau ar y teledu nag ar y radio yn ein tŷ ni, a doedd neb yn yr ysgol na'r pentref, o be dwi'n ei gofio, yn dangos diddordeb yn ein tîm cenedlaethol! Neb yn gwisgo'r crys coch na sgarff na het fwced. Doedd dim cyhoeddusrwydd i'r tîm cenedlaethol.

Ond daeth rhyw fath o achubiaeth yn weddol fuan wrth i mi ddechrau hel cardiau pêl-droed efo lluniau sêr y bêl gron arnynt a dwi'n cofio lluniau o Cliff Jones, John Charles a Jack Kelsey o dîm Cymru.

Serch hynny, dim ond enwau ar gardiau oeddent ar y pryd – dim arwyr go iawn fel Gareth Bale ac Aaron Ramsey heddiw. Fel mae pethau wedi newid o ran proffil y gêm yng Nghymru.

Rhaid hefyd llongyfarch Cymdeithas Pêl-droed Cymru am roi mwy o ystyriaeth a sylw i'r iaith Gymraeg yn eu trefniadau yn ddiweddar. Ry'n ni yma o hyd!!

---

Mae Siop Y Tŷ Gwyrdd wedi ennill ei phlwy yn y dref bellach a newydd ddathlu ei phen-blwydd yn flwydd oed. Mae hefyd newydd lansio Gŵyl Tŷ Gwyrdd yn ystod Gŵyl Ganol Haf Dinbych.

Cynhaliwyd gweithgareddau drwy'r dydd yn Eirianfa, yn Neuadd y Dref ac yn Nhafarn y Guildhall yn hwyrach.

Nod Y Tŷ Gwyrdd yw darparu cynnyrch fforddiadwy, ecogyfeillgar gan helpu i leihau deunydd pacio a gwastraff bwyd diangen a gyda'n gilydd, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Rhan bwysig o'r Ŵyl ar y Dydd Sadwrn oedd Cynulliad y Bobl sef trafodaeth ar ' sut y gallwn gryfhau ein rhwydweithiau bwyd lleol' oedd yn cynnwys trafodaeth ar sut i adeiladu rhwydwaith bwyd lleol cryfach, cefnogi ffermwyr a thyfwyr lleol, gwneud gwell defnydd o fwyd dros ben/ gwastraff ac annog ein cymuned i dyfu eu bwyd eu hunain.

Os nad ydych wedi bod yn y siop eto, fe gewch eich synnu gan yr hyn maent yn ei gynnig i bawb.

---

Am resymau amlwg, mae yna dipyn am yr Urdd a phêl-droed yn y rhifyn hwn. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

**Erfyl**

# Atgofion am Eisteddfod yr Urdd 1949



Valerie Millward, Eleri Williams, Brenda Evans, Dilys Hughes, Olwen Jones, Morfydd Williams, Nerys Hughes, Ann Owen a blaen 'Gwenni' Nerys Roberts.

I Ysgol Gynradd Frongoch, yma yn Ninbych yr es i i dderbyn blynyddoedd cyntaf fy addysg. Toedd dim llawer o weithgareddau Cymraeg yn cael eu cynnal yn yr ysgol, yn wir, dwyieithog oedd yr ysgol a'r pwyslais ar Saesneg ac nid oedd sôn am yr Urdd! Ond mi roedd un athrawes, Miss Ella Ingman, yn awyddus i ni'r Cymry Cymraeg berthyn i'r Urdd ac fe ffurfiwyd Adran ac Aelwyd yr Urdd yma yn y dref. Trwy ei gweledigaeth hi mi gawsom gyfle i gystadlu. Cawsom lwyddiant!!

Ein hathrawes Ysgol Sul yn y Capel Mawr, Miss Gwenfydd Davies a'n heliodd ni at ein gilydd i ddysgu'r Gân Actol. A dyma ddechrau'r broses o gael Cân Actol, a dyma ddewis 'Gwenni aeth i Ffair Pwllheli'. Roedd Miss Ingman yn canu'r piano ac fe gawsom Miss Josephine Jones i ddysgu'r ddawns i ni. Yn wir roeddem yn ffodus iawn ohoni. Hi oedd yr un a greodd y 'Ddawns Flodau' gyntaf i'r Eisteddfod Genedlaethol. Buasai'r Ddawns Flodau heb weld golau dydd heblaw amdani hi.

Dyma ddechrau ymarfer,ac fe ychwanegwyd rhai penillion at y gân wreiddiol, gan fy nhad megis:

*Gwenni aeth yn fore i briodi*
*A rhoi minlliw ar ei gwefus*
*Roedd y clychau'n canu iddi*
*Ac mi roedd Gwen yn berffaith hapus*

Cawsom ymarferion caled iawn. Roedd Miss Josephine Jones yn llym iawn, ac fe gawsom ein dysgu i wneud stepio 'ballet' ar gyfer pob cytgan. Roedd rhaid bod yn berffaith ac os na,buasem yn aml yn cael slap hefo 'ruler' ar draws ein coesau i wella'r step. Roedd llawer ohonom yn crio cyn mynd adra.



Pawb yn hapus

Ar ôl mynd trwy Eisteddfod y Sir, roedd rhaid paratoi at y Genedlaethol. Yn gyntaf, cawsom ddillad newydd ac yn lwcus, roedd mam un ohonom yn dda am wneud ffrogia'. Roeddem yn grand ofnadwy ac mi gawsom dynnu ein lluniau yn ffurfiol gan Ronald Thompson, Stryd y Dyffryn. (Sylwch ar yr esgidiau ballet yn y llun.) Roedd yr Eisteddfod y flwyddyn honno yn Abergwaun, yn 1949, sef saith deg tri o flynyddoedd yn ôl.

Taith bell iawn yn y dyddiau hynny. Dyma gychwyn ar y daith yn fore iawn, a phob un ohonom yn edrych ymlaen yn arw iawn ac yn hynod gynhyrfus at y gystadleuaeth. Roeddem wedi cael bws reit fawr i deithio ynddi, nid oedd bws mini ar gael 'r adeg honno. Anghyfforddus oedd y daith a bron bob un ohonom yn sâl a gorfod stopio yma ac acw!

Dyma gyrraedd pen y daith yn hwyr gyda'r nos, cyrraedd Ysgol Uwchradd Crymych. Yno roedd rhai o bobl yr ardal yn aros i'n croesawu a mynd â ni i'w cartrefi, a chael croeso arbennig o gynnes. Pawb yn hapus i fynd fesul dwy, ond yr athrawon yn aros gyda'i gilydd mewn un tŷ. Daeth y diwrnod mawr. Cychwyn yn fuan ar ôl brecwast i lawr am Abergwaun i gyrraedd y rhagbrofion. Cael llwyfan ac ennill yn y pnawn – am lwyddiant!!

Nid yn unig llwyddiant mewn Cân Actol, ond mi gafodd ffrind i mi, sef Nerys Plas Clough (Nerys Owen) 1af hefo canu'r piano dan ddeg oed. Mae'n chwith meddwl i ni ei cholli flwyddyn ddiwethaf, un mor weithgar a thalentog.



Cychwyn i Abergwaun



Stopio mewn sawl lle ar y ffordd

# Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Ar gaeau llon ein dyffryn ni,
profwyd balchder bro llawn egni.
Ieuenctid heddiw ar hyd y daith,
yw gobaith brwd ein heniaith.

**Gŵyl Triban**

Trydan a thân yw ein Triban,
a llwyfan i bawb yw ein bod.
Sgubor balch yn dyst i'r cyfan,
mai heno 'fel hyn de ni fod'.

**Siân Eirian**

Mawr yw ein mawlgân,
i drysorydd Gŵyl Triban.
I bawb fe roddodd lwyfan,
Ein saer euraidd, Siân Eirian.

**Llywydd y Dydd- Robat Arwyn**

Arwain y gân yw Arwyn- ein diolch,
am dalent ddi- derfyn.
Ei olau sy'n dôn i ddilyn,
a Brenin y sêr yw'r dyn.

**Aelwyd Dyffryn Clwyd**

Nodau pêr yn atsain- fel un cor,
eu canu sy'n gywrain.
Lleisiau ein Dyffryn yw'r rhain,
a baton Ceri yn arwain.

**Mudiad yr Urdd**

Rhoi golau i ddyheadau,
I'r Gymraeg, fe roddir gwreiddiau.
Hau hwyl yn ein hafau,
Boed i'r Urdd hir barhau..

**Caeau Kilford 2022**

Er hired yr aros a phell y daith,
er holl baratoi ac oriau maith.
Hedfanodd yr wythnos fel y gwynt,
gan adael ei hoel ar ei hynt.

Fe gofiwn fynediad am ddim i'r ŵyl,
Fe gofiwn y cyffro, y chwerthin a'r hwyl.
Dyma ein coron, ein jiwbilî,
Anghofiwn y strach efo'r HSE!

'Llwyfan i bawb' - y neges a'r gri,
Gŵyl y ganrif i'n hysbrydoli.
Rhywbeth i bawb, yr ifanc a'r hen,
Ffrindiau yn cyfarch ei gilydd â gwen.

Dyma ddathliad ieuenctid a phlant,
i ganu corawl a phartion cerdd dant.
Cydnabod ein cewri a gweiddi yn groch,
ein hoelion wyth, ein hannwyl Wal Goch.

Stiwardiaid, beirniaid a chlercod llon,
miloedd yn tyrru, ton ar ol ton.
Eneidiau ifanc, beth bynnag eu hoed,
a brofodd Eisteddfod- yr orau erioed.

Fe gofiwn eleni, a diolchwn yn wir,
am angerdd a chariad led led ein sir.
I fudiad yr Urdd sy'n dathlu'r cant,
am roi'r Gymraeg ar wefusau plant.

Be ddwedai Ifan petai yma o hyd?
Wrth wenu ar Steddfod gynnes a chlyd.
Yr un fydda'i gredo, yr un fyddai'r daith,
Diolch i'r Urdd am warchod ein hiaith.

**Dyfan Phillips**
**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**



## Amgueddfa Dinbych

Yn sgîl llwyddiant yr arddangosfa ar Fywyd Gwledig a ddenodd dros 1,500 o ymwelwyr, trefnwyd arddangosfa newydd sbon ar 'Y Cartref.' Cyfle i chi ddod am sbec bob pnawn Llun ac Iau (2yp - 4yp) ac ar Sadyrnau (12 - 4yp) tan ddiwedd Medi.
Bydd pob math o drugareddau i'w gweld o'r 18g hyd yr1960au – taclau paratoi bwyd a bwyta, dodrefn, offer golchi, glanhau, twymo a goleuo a phob math o drugareddau eraill. Cyfoeth i'r llygad a chyfle i hel atgofion ynghylch sut yr oeddem yn arfer byw!

## Dyddiadur

**Nos Fercher, Hydref 19**
Cwmni mewn Cymeriad yn cyflwyno
Cranogwen
Yn Theatr Twm o'r Nant
Tocynnau gan Gaynor Morgan Rees
01745 812349

**Nos Iau, Hydref 27**
Cwmni Bara Caws yn cyflwyno
Un Noson Ola Leuad
Yn Theatr Twm o'r Nant
Tocynnau gan Gaynor Morgan Rees
01745 812349




TE YN Y GRUG

Tŷ Te a
Delicatessen
Coronation
Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Cysylltiadau â'r Urdd





Pan ofynnodd Erfyl a oedd gennyf i atgofion neu gysylltiadau gyda'r Urdd ar gyfer ysgrif fechan yn Y Bigwn, 'Oes, ychydig' dywedais heb sylweddoli gymaint o gysylltiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol oedd gennyf. Mae chwilio corneli fy ymennydd, blychau o hen luniau a disgiau caled fy nghyfrifiadur wedi dod â nifer o atgofion yn ôl ac wedi bod yn bleser mawr i mi.

I ddechrau, roeddwn am sôn am brofiad personol o gystadlu trwy'r Eisteddfod Cylch, a Sir i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanidloes yn 1970, pan oeddwn yn ddeunaw mlwydd oed, a chael fy nyfarnu yn ail yn yr unawd i fechgyn dan bedair ar bymtheg. Ar y pryd roeddwn yn methu siarad Cymraeg er i mi fynychu Capel y Waen, Bodfari, a gwneud Cymraeg ail iaith yn Ysgol Uwchradd Dinbych. Roedd fy mam o Lerpwl ac er bod fy nhad yn Gymro Cymraeg, Saesneg oedd iaith yr aelwyd. Cofiwch, dwi ddim yn beio fy rhieni am fy anallu i siarad Cymraeg. Yn bendant, arnaf i oedd y bai - wedi gwrthod ceisio siarad Cymraeg oeddwn i fel plentyn ifanc. Roedd fy chwaer, Christine, yn gallu siarad Cymraeg ond fy mrodyr yn methu.

Ond wrth feddwl am fy mywyd cynharach sylweddolais fy mod i wedi cael cysylltiad gyda'r Urdd cyn hyn a llawer mwy o gysylltiad teuluol nag oeddwn yn deall fel plentyn. Cofiais ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun pan oeddwn yn ddeg mlwydd oed gyda fy chwaer a cherdded wedyn at Efenechtyd lle'r oedd cyfnither i mi, Brenda Fletcher, yn byw ar y pryd. Mae gennyf gof o gyfarfod ag aelodau fy nheulu estynedig yn Eisteddfod Rhuthun ond erbyn hyn, dim syniad pwy oedden nhw.

Dysgais flynyddoedd wedyn fod fy nain, Elizabeth Jones, ond Nan-nan i ni, wedi gweithio yn Llangrannog fel cogydd yn nyddiau cynnar y gwersyll ac roedd ei chyfnither, Olwen Griffith, yn briod ag R.E.Griffith, Cyfarwyddwr yr Urdd. Hyfryd oedd gweld llun o fy nain yn un o gyfrolau hanes yr Urdd a ysgrifennodd R.E.Griffith. Credaf fod fy nhaid wedi helpu yno hefyd oherwydd mae o'n sefyll wrth ochr fy nain yn y llun hwn o weithwyr y gwersyll. Credaf fod y llun yma yn dangos grŵp oedd yn gweithio yng Ngwersyll Llangrannog ond does gennyf ddim syniad pwy sydd yno heblaw am fy nain a thaid. Symudodd fy nain a thaid o Abercynon i fyw yn Nhŷ Capel, Neuadd, yn ymyl Cwmtydu, Sir Aberteifi, o gwmpas 1931, pan oedd fy nhad yn ddeuddeg mlwydd oed. Daeth fy mam i'r ardal fel athrawes faciwîs ac yno bu iddi gyfarfod â fy nhad.
Bu farw fy nhaid yn 1950 cyn i mi gael fy ngeni. Cafodd fy nain ei lladd mewn damwain car yn Nhrefnant yn 1968. Digwyddiad trawmatig ond mi ddes i yn fwy ymwybodol o fy nghysylltiad gyda de Cymru wrth fynd i'w hangladd yn Abercynon. Cofiaf i mi feddwl, o gwmpas yr amser hwn, er i mi lwyddo gyda Chymraeg Ail-iaith, nad oedd unrhyw siawns y byddwn i'n gallu dod yn rhugl yn y Gymraeg.

Erbyn i mi orffen fy ngradd ym Mhrifysgol Salford roedd yr awydd i ddatblygu fy nghysylltiad gyda fy ngwreiddiau Cymraeg wedi tyfu yn sylweddol. Roeddwn wedi mynd i wasanaethau Capel Presbyteraidd Cymraeg yn Salford a chredaf fod yr ymdrech roedd aelodau'r capel yn ei wneud i barhau gyda'r iaith er eu bod hwy'n byw yn Lloegr wedi gadael effaith arnaf. Roedd yn help, hefyd, i dderbyn fy ngradd oddi wrth Yr Athro Glyn O. Phillips, Athro Cemeg ym Mhrifysgol Salford oedd yn Gymro Cymraeg. Wrth i mi ddilyn cwrs hyfforddiant i fod yn athro ym Mhrifysgol Bangor penderfynais geisio gwella fy Nghymraeg. Yn lwcus roedd Arfon Jones, ffrind o Ysgol Dinbych, yn dal, ym Mhrifysgol Bangor a gofynnais iddo beidio siarad Saesneg hefo fi mwyach. Ar ôl y flwyddyn ym Mangor, ac eistedd yng nghwmni grwpiau oedd yn siarad Cymraeg yn unig, roedd fy Nghymraeg wedi gwella digon i mi ennill swydd yn Ysgol Maes Garmon a wnaeth y cyswllt gyda'r Urdd ddechrau datblygu ymhellach.







Roedd fy rhieni wedi symud o Bodfari i Ddinbych yn ystod fy nghyfnod yn Salford a chefais y cyfle i gynorthwyo gyda ac arwain Aelwyd yr Urdd yn Ninbych. Credaf fy mod i wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yr adeg honno hefyd ond yn sicr mi es i 'swogio' yng Nglan-llyn a chyfarfod â phobl fel Mici Plwm a Dei Tomos. Cofiaf hefyd gymryd rhan mewn cystadleuaeth chwaraeon yn Llanrhaeadr fel y gallwch weld o'r lluniau hyn – fi sydd yn y dŵr a fi ydy'r ferfa a, dwi'n meddwl, Nerys Ann sy'n gwthio'r ferfa!! Ac, wrth gwrs, fi sydd ar y siglen. Llawer o hwyl!

Yn fy mlynyddoedd cynnar fel athro yn Ysgol Maes Garmon, cefais i'r cyfle i fynychu gwersylloedd yr Urdd wrth gymryd grwpiau o blant i Langrannog a Glan-llyn ar gyfer cyrsiau iaith. Roedd y defnydd o Wersyll Glan-llyn yn rhywbeth a wnaeth barhau yn ystod fy nghyfnodau yn Ysgol Morgan Llwyd ac wedyn yn Ysgol Santes Ffraid yn Ninbych hefyd.



Pan oeddwn i lawr yn Llangrannog yn 1976 mi roedd rhai o weithwyr y gwersyll yn dal i gofio fy nain fel pen cogydd yno.

Ar ôl tua dwy flynedd fel athro yn Ysgol Maes Garmon symudais i Dreuddyn i fyw a chefais i'r cyfle o arwain Aelwyd yr Urdd yno am gyfnod a hyfryd oedd cyfarfod ag un o blant yr Aelwyd, Elfyn Roberts, Plas ym Mhowys, ar faes yr eisteddfod yn Ninbych eleni. Dyma lun o grŵp o Aelwyd Treuddyn wedi mynd am dro i Lyn Brenig ac Elfyn yn y rhes gefn pen pella ar yr ochr chwith.




Fues i wedyn i ffwrdd yn Zambia am dair blynedd. Pan ddes i yn ôl i Gymru symudais yn ôl i Ddinbych a chefais wahoddiad gan Morfudd Vaughan Evans i ymuno â Chôr Ieuenctid Rhuthun oedd wedi ei ffurfio yn wreiddiol i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Yn 1988 es i dramor eto i Bapwa Gini Newydd. Wrth i mi ddychwelyd i Gymru eto cefais swydd yn Ysgol Morgan Llwyd ac unwaith eto, fel cyswllt rhwng yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd oedd yn eu bwydo hi, es i ar gyrsiau yng Nglan Llyn.

Roedd hi'n bleser o'r mwyaf fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Santes Ffraid i gefnogi ymdrechion yr ysgol i wneud mwy a mwy at Eisteddfod yr Urdd ac i gymryd disgyblion i Lan-llyn ar gyrsiau iaith ac i eisteddfodau'r Urdd. Roedd disgyblion, er nad oeddynt yn gallu siarad Cymraeg, yn cael cyfle i brofi'r awyrgylch Gymreig wrth iddynt gystadlu ac ennill yn arbennig mewn dawns ond hefyd mewn meysydd eraill fel cystadlaethau i ddysgwyr. Dyma luniau o rai o ddawnswyr Ysgol Santes Ffraid yn yr eisteddfod yn Sir Fôn ac yng Nghaerdydd.




Cofiaf hefyd cael y cyfle i arwain yn yr eisteddfodau cylch yn Ninbych ac i stiwardio yn yr Eisteddfod Sir yn Rhuthun yr adeg honno.

Tra roedd fy mhlant, Eurig a Bethan, yn tyfu i fyny cefais i'r cyfle i ymwneud â'r Urdd hefyd fel rhiant gyda'r ddau ohonynt yn cystadlu yn yr eisteddfodau cylch, sir ac yn genedlaethol.

Erbyn i mi benderfynu gadael Cymru eto a mynd i Bapwa Gini Newydd am yr eildro yn 2007 roedd Bethan wedi gorffen ei gradd ym Mangor a chafodd hi swydd yn ardal Dinbych a'r Fflint yn gweithio i'r Urdd ac wedyn yng Nghaerdydd. Yn 2012, trwy'r cysylltiad gyda Bethan,derbyniais gopi o Neges Ewyllys Da'r Urdd a bu i mi ei gael wedi ei gyfieithu i'r iaith Pidgin.Darllenwyd ef yn y Gymraeg, yn Saesneg ac yn yr iaith Pidgin yn yr ysgol lle roeddwn i'n bennaeth ac fe anfonais y neges i gael ei ddarllen yn holl ysgolion rhyngwladol yr IEA (Asiantaeth Addysg Ryngwladol) o gwmpas y wlad. Anfonais gopi o'r fersiwn Pidgin yn ôl at yr Urdd a chafodd ei gynnwys ar wefan yr Urdd.

Erbyn hyn,dwi yn ôl yng Nghymru a phleser mawr oedd stiwardio eleni yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych a chael y cyfle i grwydro'r maes gydag Ann, Bethan a Harri, fy ŵyr.

Yn bendant mae'r Urdd wedi bod yn bwysig yn fy mywyd i a gobeithio bydd yn parhau i lwyddo a chadw ieuenctid Cymru yn ymwybodol o bwy ydynt a'u bod nhw'n gallu bod yn falch o'u Cymreictod yma ac ym mhob man yn y byd.

**Ifor John Jones**

## Hel Atgofion am yr Urdd

Do, cawsom Eisteddfod lewyrchus a llwyddiannus iawn yn Nyffryn Clodfawr Clwyd eleni a phawb wedi mwynhau a chlywais rai o Eisteddfodwyr ffyddlon o bob cwr o Gymru yn deud “Dyma’r Eisteddfod orau eto’

Mae’r genhedlaeth yma o blant mor lwcus o gael athrawon a hyfforddwyr gwirfoddol i’w hyfforddi a’u hannog i gystadlu ac mae ein diolch yn enfawr iddynt. Daeth fy merch hynaf yn ail am y goron yn Eisteddfod Merthyr Tydfil yn 1987 a hithau yn y 6ed. dosbarth yn Ysgol Glan Clwyd. Rhaid diolch i Stan Lyall a’r athrawon Cymraeg eraill am ei hannog i gystadlu. Y flwyddyn honno doedden ni ddim wedi mynd i’r Eisteddfod gan fod Manon ar ganol ei harholiadau lefel A a ninnau fel teulu yn eistedd yn y lolfa i wrando ar y feirniadaeth, a dyna’r tro cyntaf iddi gael clywed am ei llwyddiant.

Roeddem yn teimlo’r tristwch mai ar y teledu y clywson ni’r newydd gyntaf, ond balch iawn oeddwn o weld y tri enillydd yn cael clod trwy gael bod ar y llwyfan eleni.

Ches i erioed y cyfle i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd pan yn yr ysgol. Doedd yr athrawon ddim yn ein hyfforddi a doedd yna ddim Adran yr Urdd yn Nefyn lle fy magwyd.

Mae gen i atgofion hapus iawn o fynd i Wersyll yr Urdd Llangrannog fel aelod unigol pan oeddwn yn 10 oed, fel yr es yno eto y flwyddyn ganlynol ar ôl cynilo fy arian poced am flwyddyn. Mynd ar y bws cyhoeddus o Nefyn i Bwllheli wnaeth fy ffrind a fi ac wedyn trên o Bwllheli i Aberystwyth lle’r oedd bws mawr yn cludo’r plant i gyd i’r gwersyll. Roedd pedair ohonom yn cysgu mewn cwt pren a’r bechgyn mewn pebyll ar y cae. Roedd fy ffrind a fi yn rhannu’r ystafell wely dywyll efo dau wely bync a dim trydan efo dwy ferch o’r De yn y cwt pren. Doedden ni ddim yn deall ein gilydd yn siarad a phan ofynnodd un ohonynt i mi un diwrnod os oeddwn yn “dost” atebodd fy ffrind hi gan ddeud mai dim darn o fara oeddwn i. !! Rhaid cofio nad oedd gennym deledu adra a ddim wedi arfer clywed iaith y De. 5 mlynedd yn ddiweddarach gawson ni deledu yn ein cartref yn 1961 a buan iawn y daethon ni yn gyfarwydd ag iaith y De. Cofio hwyl y Nosweithiau Llawen yn Llangrannog a chael actio efo Emyr Williams neu Gari Williams yn ddiweddarach. Gari oedd y Prins Charming a fi y chwaer hyll. Ar y nos Sul bydden i gyd yn cerdded i’r capel yn Llangrannog i oedfa’r nos(1956 a 1957 oedd y blynyddoedd y bum i yno.). Mae’r capel wedi cau erbyn heddiw. Anodd credu bod 66 o flynyddoedd wedi gwibio heibio ers fy ngwyliau yn Llangrannog ond mae’r atgofion yn dal yn fyw iawn yn y côf. Mae’r lle wedi newid cymaint ers hynny am y gorau. Boed i blant y dyfodol gael cymaint o hwyl a’r profiad o fynd i Langrannog ac y cefais i.

**Mair Spencer**

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Hydref**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Medi 23**

## CYFRINACH KLOPP?

Janice Jones, un o wirfoddolwyr y maes parcio yn ystod y Steddfod, dynnodd fy sylw ato gyntaf. Mae’n eitha posib fod nifer ohonoch yn gwybod fod Jan hefyd wedi bod yn gefnogwraig ffyddlon o Glwb Pêl-droed Lerpwl ers blynyddoedd, sy’n egluro’r cyfan.

Ar ddiwedd ei chyfnod fel stiward un noson, fe’i gwelais yn mynd at gefn Y Cwt, sef “Pencadlys” y criw parcio, a thynnu llun efo’i ffôn. Ac, wrth gwrs, gan ‘mod i’n un busneslyd, roedd rhaid i mi gael gwybod beth oedd y tu ôl i’r Cwt. A beth oedd yno? Wel, rhyw fath o furlun wedi ei osod ar fwrdd pren tua un metr sgwâr.

Doedd gan Jan ddim syniad pwy oedd wedi creu’r fath gampwaith, a dwi wedi holi sawl un, a does neb ohonynt yn gwybod (meddan nhw!). Yn wir, ychydig iawn o ymwelwyr i’r Steddfod oedd wedi ei weld oherwydd ei leoliad y tu ôl i’r Cwt.

Ond rwy’n ffyddiog fod rhai o ddarllenwyr Y Bigwn yn gallu datrys y dirgelwch. Os felly, beth am gysylltu â golygydd ein rhifyn nesaf, sef rhifyn mis Hydref? Mae digon o amser i’r ditectifs wneud eu gwaith!

Efallai fod Banksy Eisteddfodol yn byw yn ein plith?

**John Davies**




**HUW VAUGHAN JONES**
**Arlunydd,Cartwnydd**
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# Holi a Stilio yng Nghwmni Ceri Haf Roberts ,

Arweinydd Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd. Mae Ceri hefyd yn unawdydd ac yn gyfreithwraig yn Ninbych.

**Be ydi dy atgof cyntaf o gystadlu ac o gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd?**

Er fy mod i wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ers yn ifanc iawn, mae'n debyg mai fy atgof cyntaf o'r Urdd oedd Eisteddfod yr Urdd Rhuthun yn 2006. Roeddwn yn 9 oed ar y pryd ac roeddwn i wedi gwirioni o gael llwyddiant yn yr Eisteddfod Rhanbarth a chael cyntaf ar yr Unawd, Unawd Cerdd Dant, y Gân Werin a'r Llefaru ! Yn anffodus, aeth yr holl waith hyfforddi yn ofer a ches i ddim cystadlu oherwydd fy mod yn sâl drwy gydol y nos cyn cystadlu – roedd y cyffro yn amlwg yn ormod i mi!!

**Oes yna Eisteddfod yn sefyll allan o dy gyfnod yn yr ysgol / coleg a pam?**

Efallai mai dyma yw'r ateb mwyaf amlwg ond – Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013. Roeddwn yn 14 oed bryd hynny ac roeddwn yn ffodus iawn o gael ennill y wobr gyntaf yn yr Unawd Merched rhwng 12-16 oed ac efallai dyma'r tro cyntaf i mi sylweddoli mai'r cystadlaethau mwyaf clasurol eu naws oedd yn mynd â fy mryd fwyaf. Bum yn ffodus iawn o ennill yr Unawd Merched chwe blwyddyn yn olynol wedi hyn ac felly dwi'n meddwl bod yr Eisteddfod yma yn aros yn y cof am roi yr hyder i mi fynd ar drywydd y canu clasurol.

**Sut wnaeth y cyfnod clo effeithio ar baratoadau'r Côr?**

Ni wnaethom ail gydio yn yr ymarferion tan mis Mawrth eleni ac roedd hi'n ras wyllt i ddysgu nid yn unig y caneuon ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, ond dysgu rhyw fath o raglen ar gyfer ein cyngerdd cyntaf fel Côr yn ddiweddar. Roeddem yn cadw pellter ym mhob ymarfer ac roedd rhai yn dweud nad oeddent yn medru canu gan eu bod yn ddibynnol ar eu ffrind y naill ochr iddynt er mwyn gwybod eu nodau (wrth gwrs yr hogie oedd yn defnyddio'r esgus yma gan amlaf..!) Ond diflannu wnaeth y swildod ar ôl i ni glosio at ein gilydd a chanu fel Côr unwaith yn rhagor am y tro cyntaf ers bron i ddwy flynedd ac am fôr o sain a gafwyd pan wnaethpwyd hyn am y tro cyntaf!

**Sut mae arwain y Côr yn cymharu efo canu?**

Llawer mwy o bwysau! Mae'n eithaf brawychus meddwl bod pawb yn ddibynnol arnoch i ddod mewn yn y lle cywir, i atgoffa pawb o'r lliwio a'r cyffyrddiadau ac adrodd y geiriau hyd yn oed. Rwyf wedi dysgu fy mod yn amldasgiwr gwych ers sefydlu'r Côr!

Mae'r ffaith fy mod yn canu yn help anferth i mi fel arweinyddes. Rwyf yn ceisio cael y Côr i greu sain y byddwn i'n ceisio ei wneud pe bawn i'n canu. Mae'n rhaid cyfaddef, dwi yn berffeithydd ynghylch y sain sy'n cael ei gynhyrchu a dwi'n siwr bod hyn yn boendod mawr i'r Côr pan ofynnaf iddynt ailadrodd yr un frawddeg drosodd a throsodd! Arwahan i'r sain, mae fy mhrofiad yn canu ar hyd y blynyddoedd wedi dysgu i mi bwysigrwydd dehongliad cân a phwysigrwydd deall yn union beth yw ystyr darn o gerddoriaeth. Mae mynd o dan groen y geiriau yn hollbwysig er mwyn deall a chynnal y darn drwyddi draw.



**Beth ydi'r cam nesaf i Gôr Aelwyd Dyffryn Clwyd?**

Mae sefydlu Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd wedi dod â gymaint o bleser i mi. Rydym wrth ein boddau yn canu hefo'n gilydd ac rydym wedi dod yn griw o ffrindiau arbennig iawn er mai dim ond am ychydig o amser rydym wedi bod yn canu hefo'n gilydd.

Mae gennym Haf prysur iawn o'n blaenau yn perfformio mewn cyngherddau ac ambell i ddigwyddiad.

Mae gennym bethau cyffrous iawn ar y gweill fel Côr ac rydym yn croesawu aelodau newydd o unrhyw oedran i ddod i ymuno hefo ni!

**Be nei di rwan ar ôl y Steddfod?**

Gan ystyried bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yma ymhen rhyw fis, byr iawn yw'r cyfle i ymlacio! Ond wnai ddim cwyno gan ein bod wedi gweld methu'r Urdd a'r Genedlaethol yn aruthrol dros y ddwy flynedd diwethaf!

**Sut wyt ti'n teimlo o gael eich dewis fel Côr swyddogol Gemau'r Gymanwlad?**

Dwi'n teimlo'n hynod o freintiedig o fod wedi cael ein dewis fel Côr swyddogol Gemau'r Gymanwlad. Mae Cymru yn genedl sy'n adnabyddus am ei chanu corawl ac mae'r ffaith bod Côr Dyffryn Clwyd yn cael cynrychioli tîm Cymru yn deimlad arbennig. Yn sicr mi fydd yn brofiad bythgofiadwy i holl aelodau'r Côr ac rydym yn gwerthfawrogi y cyfle yn fawr iawn. MI fydd yn hwb enfawr i ni fel Côr newydd ffurfiedig ac rydym yn gyffrous iawn. Byddwn yn sicr o roi gwybod i ddarllenwyr y Bigwn sut brofiad cawn yno!

**Fuoch chi'n dathlu yng Ngŵyl Triban nos Sadwrn?**

Wrth gwrs ! Efallai bod hyn braidd yn rhagfarnllyd, ond mae ymweliad Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol â Dyffryn Clwyd yn annodd iawn i'w guro!

**Sut deimlad oedd cystadlu yn erbyn Côr dy chwaer, Ruth?**

Roedd yn deimlad arbennig cael cystadlu yn yr un gystadleuaeth ag Aelwyd y Waun Ddyfal o dan arweiniad fy chwaer, Ruth. Am brynhawn bythgofiadwy o gystadlu! Mae yna bwysau ynghlwm â chychwyn ac arwain côr newydd fel Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd, ond mae yna bwysau mwy ar ysgwyddau unrhywun sy'n camu i mewn i esgidiau arweinwyr blaenorol Aelwyd y Waun Ddyfal a hithau'n Aelwyd adnabyddus ac wedi cael gymaint o lwyddiant dros y blynyddoedd. Roedd yn fraint cael rhannu'r llwyfan hefo Ruth a dwi'n hynod o falch ohoni â'r gwaith arbennig mae'n ei wneud hefo'r Côr yng Nghaerdydd. Dwi hefyd yn gobeithio y gwneith hi barhau i ddod adre ar gyfer cyngherddau Aelwyd Dyffryn Clwyd. Efallai ei bod yn byw yn y ddinas ond tybed pa Gôr sydd agosaf at ei chalon!

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

https://cwmulus.org/

## Profiad personol o'r radio

Diolch i Ken Taylor am rannu ei atgofion o wrando ar y radio:
"Wedi fy ngeni yn 1940, roeddwn yn ddigon lwcus i wrando ar y radio trwy ei "Gyfnod Aur", o 1945, wrth i Wasanaeth Cartref a Rhaglen Ysgafn y BBC gyrraedd a'r Ail Ryfel Byd ddod i ben, tan 1967 pan gyrhaeddodd Radio 1, 2, 3 a 4, ynghyd â'r "tranny". Efallai byddai rhai yn dweud dyma'r adeg y dechreuodd y dirywiad.
Yn ystod y blynyddoedd euraidd hynny treuliais lawer o amser yn gwrando ar y radio, tra bod fy nghyfoedion yn cicio, batio neu yn taflu peli o gwmpas, neu pan ddylwn i fod wedi bod yn gwneud fy ngwaith cartref, oedd yn gas gennyf. Llawer o atgofion hapus: *Hancock's Half Hour, The Goon Show, Meet the Huggetts, The Navy Lark, Mid-day Music Hall, Saturday Night Theatre, Twenty Questions, Any Questions* (nid am wleidyddiaeth yn unig yn ystod y dyddiau hynny, gyda Freddie Grisewood yn y gadair), *Beyond our Ken* a *Round the Horne* (gyda phortread gwych Kenneth Williams o 'countryman' a phanelydd *Any Questions* Ralph Wightman - Arthur "mae'r ateb yn y pridd" Fallowfield). Cynifer ohonynt! Roedd gwledd o gerddoriaeth ar gael: ceisiadau am recordiau ar *Housewives' Choice* a *Family Favourites*, llawer o raglenni hanner-awr o gerddoriaeth boblogaidd neu ysgafn, fel *Music While You Work*. Ar gyfer pobl oedd yn mwynhau organ theatr fel fi roedd darllediadau rheolaidd o organ theatr y BBC, o wahanol sinemâu o gwmpas y wlad, ac wrth gwrs o neuaddau dawnsio'r Tŵr a'r Ymerodres yn Blackpool. Roedd y Drydedd Rhaglen ar gael hefyd, ond doedd gen i ddim diddordeb yn honno achos doeddwn i ddim yn hoffi gwaith y cyfansoddwyr clasurol mawr.
Yn ogystal â gwrando, roedd 'na ochr, arwyddocaol iawn, arall i'm perthynas â radio. O oed 7 neu 8 dechreuais ymchwilio i'r dechnoleg. Setiau grisial i gychwyn, symudais ymlaen yn fuan i falf triod batri Mazda HL2, gan ddefnyddio folt 1.5 cell ("D") U2 ar gyfer cyflenwad ffilament (doedd gen i ddim "croniadur" 2 folt cywir) a dim ond batri "grid bias" 9 folt ar gyfer Tensiwn Uchel, ond roedd yn gweithio! Dyna gychwyn perthynas bywyd â heyrn sodro a'r holl offer sydd ei angen i chwarae â pherfedd setiau radio, a gyrfa mewn peirianneg trydanol. Roedd gan *Mrs Dale's Diary* lawer i ateb drosto!"

**Oes gennych chi atgofion o wrando ar y radio? Fasech chi'n fodlon eu rhannu, os gwelwch yn dda? Cysylltwch â Gwefr heb Wifrau ar [gwybod@gwefrhebwifrau.cymru](mailto:gwybod@gwefrhebwifrau.cymru)**

## Digwyddiadau

"Hanes Pye" oedd testun darlith ar-lein Dr. Robert Bates, ymddiriedolwr Amgueddfa Hanes Pye yng Nghaergrawnt, yn ddiweddar. Cychwynnwyd cwmni Pye yn 1896 gan William George Pye mewn sied yn ei ardd, i greu offer gwyddonol. Tyfodd y cwmni yn fuan ac erbyn 1913, roedd ganddo 40 o weithwyr. Pan gychwynnodd y BBC yn 1922 dechreuodd Pye gynhyrchu radios diwifr, ac erbyn y 1930au roedden nhw'n cynhyrchu 40,000 ohonynt bob blwyddyn. Defnyddiwyd dyluniad eiconig yr haul yn codi i addurno'r rhai cyntaf.



Dyluniad Yr Haul yn Codi ar seinydd Ferranti yn yr Amgueddfa

Erbyn y 1930au dechreuodd y cwmni ymchwilio i deledu ac erbyn cychwyn teledu yn 1936 roedden nhw wedi bod yn cynhyrchu teledu naw modfedd am fwy na blwyddyn. Doedd y setiau teledu cyntaf ddim yn sensitif iawn, ond newidiodd hyn pan ddechreuon nhw ddefnyddio falf EF50 enwog Philips a arweiniodd at gyrraedd mwy o gynulleidfaoedd. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd symudodd Pye i gynhyrchu offer fel radios a radar ar gyfer y lluoedd.

Ar ôl y rhyfel, buddsoddodd y cwmni mewn technolegau newydd fel teledu lliw a chyfrifiaduron. Sefydlon nhw gwmni Cathodeon, a oedd yn cynhyrchu tiwbiau llun ar gyfer camerâu teledu, a phrynu nifer o gwmniau fel EKCo (EK Cole), a dyfeisio ffôn symudol cynnar! Cynhyrchon nhw recordiau gramoffôn o dan label Pye ac yn y 1960au recordion nhw grwpiau fel y Searchers. Erbyn hyn roedd y cwmni yn un o gwmnïau pwysicaf y DU ac yn cyflogi dros 30,000 o weithwyr, oedd yn gweithio mewn mwy na 70 o gwmnïau yn y DU a 15 dramor. Ond, roedd problemau ar y gorwel a phrynwyd y cwmni gan Philips yn 1967. Erbyn heddiw mae'r ffatrioedd wedi cael eu dymchwel i wneud lle i ystadau tai ond mae effaith a dylanwad cwmni Pye yn dal i'w gweld yn y cwmnïau technoleg sydd yng Nghaergrawnt hyd heddiw.
Am fwy o wybodaeth ewch i www.pye-story.org

## Radios Pye yng nghasgliad yr Amgueddfa



Tua 1929



Radio Falfiau o'r 1950au



Yr ail radio transistor i'w gynhyrchu yn y DU yn 1957. Cynhyrchwyd y radio transistor cyntaf rai misoedd ynghynt gan Pam(phonic) a oedd yn is-gwmni ym meddiant Pye.

Ymweld â'r Amgueddfa



Dyma grŵp Aelodau wedi ymddeol Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg Manceinion ar eu hymweliad â'r Amgueddfa.
Mae'r Amgueddfa ar agor bob dydd Sadwrn, 10.00 – 16.00, ac ar unrhyw adeg arall drwy drefnu apwyntiad.
Cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru
Croeso cynnes i bawb.
**Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr ychwanegol i'n cynorthwyo ni i agor yn rheolaidd. Nid oes angen arbenigedd technegol. A fyddai gennych chi ddiddordeb, os gwelwch yn dda?**

---

# Dysgwr yn y Steddfod

Eleni roedd Eisteddfod yr Urdd yn dathlu 100 mlynedd a chan ei bod yn cael ei chynnal yn Ninbych penderfynais na fyddwn yn colli cyfle fel dysgwr Cymraeg i ymweld â'r maes.
Cymysglyd iawn oedd y tywydd ar y diwrnod yr ymwelais â'r Eisteddfod gyda glaw trwm yn y bore a heulwen gynnes yn y prynhawn. Roedd y penderfyniad i gymryd dillad glaw ac ymbarel yn ogystal â haenau o ddillad yn syniad da.
Roedd y digwyddiad wedi ei drefnu gyda chyfleusterau parcio a llwybrau cerdded o amgylch y Maes ei hun yn dda iawn.
Roedd llawer o siopau a busnesau Cymreig yn cael eu cynrychioli a phob un o'r Prifysgolion mwyaf adnabyddus sydd yng Nghymru efo stondin arddangos.
Gellid prynu bwyd a diod ac roedd digon o ddewis o siopau a stondinau ar y safle. Rhywbeth at ddant pawb.
Ymweliad â phabell y dysgwyr oedd y lle cyntaf i mi ymweld am sgwrs a phaned.
Yn ystod fy ymweliad gwelais lawer o wahanol gystadlaethau, o gorau ysgol, canu unawd, offerynnau cerdd, barddoniaeth, bandiau Cymraeg byw a cherddoriaeth werin. Hefyd , mi wnes i adnabod sawl cyflwynydd teledu Cymraeg a oedd yn cyfweld enillwyr a hefyd ddigrifwyr .
I deuluoedd oedd yn mynychu'r eisteddfod roedd adloniant arall gan gynnwys sioeau pypedau, sioeau comedi a gemau.
Roedd Ifor Williams Trailers yn un o'r cwmniau oedd yn arddangos ar faes yr Eisteddfod ac roedd ganddyn nhw babell fawr i gystadleuwyr ymarfer/cynhesu cyn iddynt gystadlu yn un o'r prif bafiliynau.
Mi wnes i siarad efo un aelod o'r staff am y cyhoeddusrwydd byd eang a roddwyd ganddyn nhw fel cwmni Cymreig i Glwb Pêl-Droed a'r perchnogion Ryan Reynolds a Rob McElhenney.
Mwynheais y diwrnod yn fawr a byddwn yn argymell ymweliad ag Eisteddfod yr Urdd neu Ryngwladol Llangollen neu Eisteddfod Genedlaethol Tregaron os cewch gyfle. **Carol Owen**

# Profiad un dysgwr ar y maes

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd ces i brofiad anhygoel! Bob dydd wnes i drochi yn yr iaith – siarad lot efo pobol a chlywed pobl o bob cwr o Gymru. Roeddwn i'n gwirfoddoli yn y babell Dysgu Cymraeg, felly roeddwn i'n gweithio efo llawer o diwtoriaid gwahanol - felly roedden nhw'n fentoriaid ffantastig a dysgwyr hyfryd.
Pan mae pobl yn dod yn y babell i gael panad doeddwn i ddim yn gwybod os maen nhw'n siaradwyr iaith gyntaf, dysgwyr, o'r gogledd neu'r de ac os maen nhw'n defnyddio'r gair llaeth neu llefrith (llawer o hwyl - mae'r dadl yn parhau)!
Roedd o'n gyfle da i amsugno'r iaith go iawn – yr iaith o'r stryd, yr iaith mae pobl yn defnyddio bob dydd (dim o'r llyfr gramadeg). Dw i wedi ffeindio fy hun yn defnyddio 'Mae gynna i" yn lle 'Mae gen i".
Hefyd wnes i weld selebs Cymreig fel Jason Mohammad,Tristan Ellis-Morris, Aelod Seneddol Eluned Morgan, BBC gohebydd newyddion Hywel Griffiths yn eistedd yn bwyta cinio efo ei deulu, cyfansoddwr Robat Arwyn (roeddwn i wedi parcio drws nesa iddo fo a siarad efo fo ar y ffordd i'r maes). A ches i gyfle i weld fy hoff band Cymreig Yws Gwynedd yn yr ŵyl Triban mewn cwmni o bobl gyfeillgar o bob oed.
Wythnos llawn hwyl a sbri! Pryd mae'n dod yn ôl i Ddinbych eto? Ar ôl ychydig o seibiant bydda i'n barod!

**Catherine Howarth**




## Atebion MEHEFIN 2022

**Ar Draws :**
6. Ffederasiwn
8. Aswy
9. Eisteddfod
11. Orig
12. Ŵyr
13. Cydchwarae
16. Iodl
17. Arswydo
18. Cildwrn
20. Yfed
21. Adrenalin
23. Iâr
24. Anna
25. Fietnameg
29. Tyst
30. Rala Rwdins

**I Lawr :**
1. Bere
2. Lens
3. Bale
4. Kilford
5. Gwniaduron
7. Nodweddion
8. Agoriadol
10. Tich
13. Carafanwyr
14. Diwydiant
15. Wedi arfer
19. Troedle
22. Adda
26. Nero
27. Medi
28. Gini

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR GORFFENNAF 2022



**Ar Draws :**

7. Cerddwr cyflym
8. Siawns
10. Gwlad Evita a Maradona
11. Safle ee mewn cymdeithas
12. Cert
13. Naws
15. Llorweddol a llyfn
17. Amgylchyniad castell gan fyddin
20. Cynnwrf 22. Brics adeiladu plastig
25. Gwywo
26. Cofnod o aelodau
27. Grwgnach
28. Awdurdodi i greu darn o waith

**I Lawr :**

1. Mynyddoedd uchaf Cymru
2. Cefnen hir o fynydd
3. Lliw hufen neu goeden
4. ....... a roddwyd i'm gofal
5. Henuriad
6. Cyfle i actor ddangos ei ddawn
9. Ochr chwith
14. Clustfeiniwr
16. Egwyl
18. ........ a rhincian dannedd
19. Gofod gwag
21. Heb fod ymhell
23. Gwar
24. Polyn ee i ddal ffens






# Wrth ohebu ar raglen BBC Wales Investigates, mi ddaeth Elen Wyn i adnabod gwraig oedd yn byw ym Mariupol.

**Mewn erthygl ar gyfer Y Bigwn, mae hi'n rhannu profiadau Yuliia a'i phlant wrth iddyn nhw ddianc rhag y bomio.**

"Dos â'r plant o 'ma, mor bell ag y galli di."

Geiriau ffarwel gŵr wrth ei wraig yn Mariupol. Gyda'u dinas dan warchae, roedd Yuliia a'i thair merch ar fin cychwyn ar y daith anoddaf erioed.

Ychydig ddyddiau ar ôl i'r rhyfel ddechrau mi aeth y teulu i fyw mewn byncer gyda degau o bobl eraill.

"Doedd 'na ddim toilet yno. Dim cawod. Dim trydan," eglurodd Yuliia.

"Dim ond 'chydig o fwyd oedd ar gael, ac roedd rhai yn dwyn o'r archfarchnad ac yn rhoi i ni."

Wrth iddyn nhw gysgodi dan ddaear, mi gafodd eu fflat ei daro gan daflegrau, gan chwalu popeth.

Eglurodd Yuliia fod ganddi ddau ddewis, "Dianc, neu'r dewis arall oedd aros yn Mariupol a marw."

Roedd rhaid i'w gŵr aros i ymladd, a chyda pob galwad ffôn; mae o'n ei hatgoffa i fynd â'r plant cyn belled â phosib o Wcráin.

Dyna oedd bwriad Yuliia, ffoi cyn belled ag y gallai. Ffoi i Gymru.

Ond, ddigwyddodd hynny ddim.

Er mwyn egluro pam nad ydi Yuliia wedi cyrraedd Cymru eto, mae'n rhaid mynd yn ôl i ddyddiau cynta'r rhyfel….

Ar y pryd, roedd Mariupol yn dod yn enw cyfarwydd ym mhenawdau'r newyddion ond roedd gwybodaeth am y sefyllfa yno yn brin. Roeddwn i a fy nghyd-weithwyr ar raglen '***Newyddion S4C'*** fel miloedd o newyddiadurwyr drwy'r byd yn chwilio, yn ffonio, yn ebostio cysylltiadau i drio dod o hyd i dystiolaeth am yr hyn oedd yn digwydd yno.

Roedd hi'n gyfnod rhwystredig i ni ohebwyr, achos mi roedden ni isio adrodd stori Mariupol, ond doedd dim modd cyrraedd at y bobol oedd yn dioddef.

Yn ystod yr wythnos gyntaf o ryfela, mi wnes i gyfarfod teulu o Wynedd oedd â chysylltiadau cryf ag Wcráin.

Mae Nataliia, a gafodd ei magu yn ninas Poltava wedi priodi Dewi Roberts o Morfa Bychan.

Mi briodon nhw bum mlynedd yn ôl a setlo yng Nghaernarfon; gyda'u plant Julia Mai, 4 a Jacob 1.

O'r bore cynta i mi gyfarfod Nataliia a Dewi ges i groeso annwyl iawn gan y teulu. Roedd Nataliia yn barod iawn i rannu ei theimladau ac yn awyddus i godi llais, am ei bod hi'n teimlo'n danbaid fod rhaid i'r byd wybod fod bywydau ei pherthnasau a'i ffrindiau yn Wcráin wedi eu chwalu. Bob tro y byddwn i'n mynd i ffilmio ati hi a Dewi, roedd Nataliia ar bigau'r drain – yn naturiol yn poeni'n am ei theulu yn Poltava ond hefyd am ffrind ysgol - Yuliia o Mariupol.



Cafodd cartref Yuliia yn Mariupol ei chwalu

Ac wrth i mi dreulio amser efo'r ddau yng Nghaernarfon, mi ges inna gyfle hefyd, i ddod i 'nabod Yuliia, wrth iddi anfon dyddiaduron fideo i mi.

Mewn un fideo, a hwythau ar lwgu, mi esboniodd Yuliia ei bod hi'n gorfod cyfyngu faint o fwyd oedd hi'n ei roi i'r plant.

"Un powlen fach o gawl ar gyfer tri o blant fesul diwrnod" meddai, "ac un gwydr o ddŵr bob dydd i'r tair folchi."

Wrth i'r dyddiau fynd heibio, aeth pethau o ddrwg i waeth i Yuliia a'i merched, 3, 6 ac 11 oed. Roedd y ferch ganol yn sâl.

"Doedd yna unman ar agor i ni gael meddyginiaeth" eglurodd Yuliia. "Roedd hyn yn loes i mi, achos bod gen i arian, ond allwn i ddim prynu unrhyw beth.

"Roedd popeth wedi torri a phobl wedi bod yn dwyn. Roedd popeth wedi ei ddinistrio."

Roedd dŵr yn brin, ac mi soniodd Yuliia wrtha i eu bod wedi gorfod yfed dŵr glaw o byllau ar y stryd.

"Wyddwn i ddim fod dŵr glaw yn medru bod mor flasus" meddai.

Mi ddeallodd Yuliia fod yna ffynnon rhyw 3km i ffwrdd, ac yn niffyg unrhyw ddewis arall, mi adawodd y plant yn y seler i 'nôl y dŵr.

"Roedd rhaid i mi redeg yno," meddai, "o dan sŵn y gynnau yn tanio, o dan fomiau."



Mae Nataliia yn siarad gyda Yuliia mor aml â phosib

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

| | |
|---|---|
| Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, | Plas Tirion, Kinmel Avenue, |
| Dinbych, LL16 4RH | Abergele, LL22 7LW |
| Ffôn: 01745 812935 | Ffôn: 01745 827777 |
| Ffacs : 01745 817303 | Ffacs : 01745 827750 |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors



Bu'n rhaid i Yuliia a'i merched gysgu o dan ddaear mewn byncer am wythnosau

Fedra' i ddim honni fy mod i'n 'nabod Yuliia yn dda, fasa' ein llwybrau fyth wedi croesi oni bai fy mod wedi cyfarfod Nataliia a Dewi o Gaernarfon.

Ond, drwy'r holl sgyrsiau ffôn a *Facetime*, dwi wedi dod i nabod dynes aruthrol o gryf.

Toedd y sgyrsia ddim wastad yn ddwys a difrifol cofiwch, mae Yuliia yn ddynes hwyliog iawn. Mae hi'n chwerthin lot wrth siarad.

Ac roedd hi'n anodd credu ar brydiau, fod gwraig oedd yng nghanol gymaint o drallod, yn fodlon siarad efo fi, gohebydd hollol ddieithr o Ddyffryn Clwyd, filoedd o filltiroedd i ffwrdd. Ond, mi fydda' hi yn fy nhwt-twtian am ddeud hynny: "Dwi am i'r byd i gyd glywed mai hyn ydi byw mewn rhyfel. Dyma beth ydi gwir ryfel. Mae o'n ofnadwy."

Wrth i ni ddod i nabod ein gilydd yn well, mi ddois i glywed mwy am yr Yuliia "ers talwm". Yr Yuliia cyn y rhyfel.

Roedd ei chymuned yn bwysig iddi. Mi anfonodd fideos ohoni yn canu deuawd gyda'i merch ar lwyfan sioe leol, ac un arall ohoni yn canu a dawnsio mewn cyngerdd awyr agored.

Ddechrau fis Mai mi nes i sôn wrthi, y baswn wrth fy modd tasa hi'n medru ymweld â'r Steddfod yma yn Ninbych. Ond, oherwydd oedi efo'r system visa, gyrhaeddodd hi ddim mewn pryd. Dwi'n siwr y basa Yuliia a'r plant wedi cael modd i fyw ar gaeau Kilford.

Wrth edrych ar y videos o Yuliia yng nghanol bwrlwm ei chynefin yn canu ac yn dawnsio, yn coginio, yn mwynhau mewn parti Nadolig - dwi'n ei chael hi'n anodd dirnad, ei bod hi erbyn hyn yn ffoadur, a'i bod wedi gweld gymaint o erchyllterau.

Mi welodd "lawer o gyrff," meddai. "Rhai oedd wedi eu lladd gan rocedi. Rhai wedi colli eu dwylo, dim coesau"

Mi eglurodd fod pobol yn ceisio "rhoi'r darnau yna yn ôl at ei gilydd cyn eu claddu."

"Roeddwn i'n teimlo'n ofnadwy nad oeddwn i yn gallu eu claddu, oherwydd mi nes i droi fy nghefn a gadael," eglurodd Yuliia.

Gadael Mariupol drwy goridor dyngarol gan y Rwsiaid oedd rhaid iddi hi a'r genod yn y diwedd. A chyn mynd mi losgodd holl ddogfennau'r teulu. Roedd ganddi ofn i filwyr Rwsia ddarganfod ei bod yn briod â milwr Wcráin.

"Roedd gan y Rwsiaid lawer o checkpoints" meddai. "Roedden nhw wedi heidio yno fel llau gwely."

Wrth iddi hi a'r plant gael eu harchwilio, eglurai Yuliia ei bod yn cael ei gorfodi i wenu ar y milwyr. "Roedden ni eisiau byw." "Dwi'n casáu fy hun am wenu'n deg arnyn nhw. Dwi'n ffieiddio â mi fy hun."

Wedi taith hir mi lwyddodd y bedair i deithio ar drên o Zaporizhia i Lviv.

"Tra oedden ni'n mynd ar hyd y Coridor Gwyrdd, fe wnaethon nhw geisio tanio atom sawl gwaith."


Ar ol taith hunllefus, mi gafodd Yuliia a'r merched loches mewn canolfan hamdden yn Lviv. A thra yr oedd hi yno, mi lwyddodd Nataliia a finna' ei ffonio. Doedden ni ddim wedi gallu siarad efo hi ers iddi adael Mariupol.

Wrth i ni ei chyfarch, mi roedd yna wên fawr ar ei hwyneb. "Dwi newydd gael cawod" meddai, "Dwi heb folchi ers dros fis." Mi darodd y sgwrs yma fy nghalon go iawn.

Ar y pryd roedd fy merch Alys, yn ei chanol hi efo ymarferion eisteddfodol, roeddwn innau ar bwyllgora'r Urdd, hefyd yn gweithio, ac yn trio cadw trefn ar hyn a'r llall. Roedd hi'n gyfnod, lle mae'n rhaid i mi gyfaddef, 'mod i wedi blino.

Blino.... Rhag fy nghywilydd i!

Doedd gen i ddim hawl honni ffasiwn beth. Doedd Yuliia druan heb folchi na bwyta yn iawn ers wythnosau, ei phlant wedi








Elen yn gohebu yn fyw o Slofacia ar y ffin ag Wcráin

gorfod cysgu dan ddaear ac yn byw bob dydd ar un bowlen o fwyd rhyngddyn nhw. Roeddwn yn cywilyddio fy hun am fod mor wantan.

Roedd Yuliia yn ysu i gael dod i Gymru, ond doedd ganddi ddim pasbort. Wedi ychydig dros wythnos yng Ngwlad Pwyl, roedd ganddyn nhw gartref dros dro, mi gafodd Yuliia swydd mewn tŷ bwyta, ac mi ddechreuodd y merched fynd i'r ysgol.

"Mi gafodd popeth ei wneud mor gyflym," meddai.

"Wrth gwrs roeddwn i eisiau dod (i Gymru), ond doeddwn i ddim yn sylweddoli ei fod yn broses mor hir."

## Aduniad?

Mae Nataliia yn torri ei bol isio i Yuliia a'r genod ddod i Wynedd.

Ac ar ôl wythnosau o geisio cael trefn ar y visas a’r pasbortau, mi rydan ni newydd glywed fod Yuliia, o’r diwedd, dan y cynllun 'Cartrefi i Wcráin', wedi dod o hyd i noddwr yng nghyffiniau Bangor. Mi fydda i, dros yr wythnosau nesa yn ffilmio hanes y teulu bach wrth iddyn nhw deithio o Wlad Pwyl i Fangor.

Dydy gohebwyr fel arfer, ddim yn dangos emosiwn, adrodd y ffeithiau - dyna'r nod.

Ond, wrth edrych yn ôl dros y misoedd dwetha ’ma a hanes Yuliia, fedrai ddim peidio teimlo’r emosiwn. Eilbeth ydi gohebu wrth gwrs, fy mhrif swydd i ydy bod yn fam, ac roedd clywed am brofiadau yr oedd Yuliia a'i phlant wedi gorfod wynebu yn treiddio i'r galon.

Roedd cael bod mewn cyswllt â theulu o Mariupol yn ystod cyfnod mor gythryblus, i mi yn brofiad heriol, ond heb os, yn fraint.

Mae’r teulu ar y ffordd i Gymru, sy’n newyddion ardderchog, ond mae yna hiraeth ganddyn nhw am dad a gŵr.

Y melys a’r chwerw o ddyddiau rhyfel.

**Mae modd gwylio y rhaglen BBC Wales Investigates ar *iPlayer* dan y teitl “Families Fleeing War”**




Elen ger y ‘checkpoint’ rhwng Wcráin a Slofacia. Yn ddyddiol, roedd cannoedd o ffoaduriaid yn cofrestru yma i groesi’r ffin.






# O'r Llyfrgell

Sialens Ddarllen yr Haf 2022

TECLYNWYR

Cyflwynwyd gan Yr Asiantaeth Ddarllen a'i darparu mewn partneriaeth â llyfrgelloedd.

**Sgwrs a mwy gyda Rhian Cadwaladr**
Cawsom noson gartrefol hwyliog yng nghwmni'r amryddawn Rhian Cadwaladr yn y Llyfrgell ar wahoddiad grŵp darllen Sgwrs a Sangria fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych. Soniodd am ei gwaith fel awdur ac hefyd dangos rysetiau deniadol a blasus o'i llyfr Casa Cadwaladr a'r llyfr coginio nesa sydd ar y gweill ar gyfer y Nadolig. Roedd ei darlleniadau o'i nofelau gan gynnwys 'Dathlu' sydd ar fin ei gyhoeddi yn fwyniant ac yn bleser cael gwrando arnynt. Diolch i Cheryl am y syniad ac am gyflwyno'r awdur.




**Gweithiwch o Lyfrgell Dinbych.**
Hawliwch eich treial 30 diwrnod am leoliad gweithio delfrydol yn agosach at adref drwy gysylltu gyda coworklocal.co.uk. Trwy weithio'n agosach at adref, rydych yn arbed amser ac arian wrth gefnogi lleoedd yn eich cymuned leol.

**Llyfrgell Jig-so**
Mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych wedi lansio llyfrgell jig-so newydd sy'n gyfeillgar i ddementia.
Mae gennym ddewis o bosau jig-so ar gael i'w benthyg gyda cherdyn llyfrgell, fel y byddech yn benthyg llyfr. Cadwch y pos jig-so am dair wythnos a'i adnewyddu os ydych ei angen am fwy o amser. Mae gennym ddewis da, felly ar ôl ichi gwblhau un, gallwch ei newid am un arall.
Mae'r posau wedi cael eu dylunio i oedolion ac mae rhai sy'n cynnwys 35 darn a rhai gyda 1000 o ddarnau, ac mae gennym ddewis o bosau darnau mwy, sydd yn haws i bobl gyda medrusrwydd cyfyngedig. Mae posau jig-so yn annog sgyrsiau a hel atgofion, ac yn ysgogi'r ymennydd. Maent hefyd yn wych ar gyfer ymlacio a chael gwared ar straen.
Dewch draw i'ch llyfrgell i gael golwg ar y casgliad.

**Sialens Ddarllen Yr Haf**
Thema eleni yw'r Teclynwyr sydd yn dathlu rôl y dychymyg mewn darllen yn ogystal a gwyddoniaeth. Bydd y sialens yn dangos i blant bod gwyddoniaeth o'u hamgylch bob dydd yn ysbrydoli eu creadigrwydd a'u chwilfrydedd. Byddwn yn cynnal gweithdai cyffrous ar y cyd gyda Xplore, Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth, cysylltwch a'r llyfrgell i ymaelodi o ddechrau Gorffennaf neu am ragor o wybodaeth.

**Goriadau Muriau'r Dref**
Er mwyn gwneud y mwyaf o'ch ymweliad â thref Dinbych,ewch am dro ar hyd Furiau'r Dref. Mae'r goriadau ar gael i'w hurio o'r llyfrgell am flaendal o £5.00

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Nid Chwarelwr ydwyf i Rhan 6

**Chweched diwrnod o daith Llwybr y Llechi**
**Cerdded o Llan Ffestiniog i Benmachno drwy Gwm Penmachno**

**Llan Ffestiniog i Benmachno**
**21.3km, 13.2milltir**

Ni cherddais taith yr Afon Cynfal erioed er imi fyw mor agos, rhy beryg i fachgen bach mae'n siwr ond dyma oedd cerdded ochr afon, llawer ceunant, rhaeadrau a thyfiant coed derw hen ffashiwn Cymreig. Iachus i'r corff a'r enaid tybiaf.



**Cwm Cynfal**

Dyma beth ydyw afon go iawn
Rhaeadrau cryf a'r llif yn llawn,
Naddu'r graig mae pwer y lli
Naddu araf ei chanrifoedd hi,
Yn gwthio'r graig i'w mowld ei hun
Fel artist gwych yn tynnu llun,
Pwysleisio yma ac yn ysgafn draw
Boed yn dywydd sych neu'n drymder glaw.
Creu rhaeadrau llawn o ewyn gwyn
A duwch pyllau fel gwaelod llyn,
Y dŵr yn fudur tuag at y lan
A gwyrddni tyfiant ym mhob man,
Y goedwig dderw a'r gwyrddni llaith
Yw bwrlwm artist wrth ei gwaith
Yn rhwbio'r creigiau hen yn llyfn
O frigau'r coed i'r dyfroedd dyfn,
A'r dŵr yn llifo fel erioed
Ydyw'r darlun o dan y coed
Dyfrliw'r afon sydd yno'n sail
I greu canfas hardd o ddail.
Cyfanwaith ydyw'r darlun hwn
Campwaith gwyllt y cread crwn,
Mae'r dŵr yn gefndir i'r holl waith
A'r Afon Cynfal ar ei thaith.



**Pulpud Huw Llwyd**

Dyma bulpud i'n hudo – lle ydoedd
I Huw Llwyd fyfyrio
A siarad am gonsurio,
Dewin ei gynefin o.

Ymddengys fod Huw Llwyd yn gwneud bob math o gampau arallfydol o'r pulpud yma ynghanol yr Afon Cynfal, gan helpu i iacháu aballu. Bu yn soldiwr, fel mercenary yn cwffio hefo byddin Yr Iseldiroedd yn erbyn Sbaen hefyd. Yn blant rwy'n cofio teithiau cerdded i weld y pulpud o Ysgol Llan, bellach mae arwyddion iechyd a diogelwch ym mhob man.
Ers talwm antur oedd cael cerdded llwybr ar grib dibyn i weld y rhyfeddod pulpudol yma!



Dyfod yn gerddwyr dyfal - a chrwydro
Uwch raeadrau'r ardal,
Llithr yw taith i'r llethrau tal,
Camau canfod Cwm Cynfal.

Huw Dylan Jones, cydgerddwr ar y daith. Parchedig, ffrind a cherddwr megis gafr fynydd!

**Chwarel Cwt y Bugail, Manod Mawr**

Mae'n siwr bu bugail yma gynt
Yn gwylio'r praidd yn sŵn y gwynt
Ar ben yr allt oedd bron rhy hir
I mi ei cherdded deud y gwir,
Lle bu storio yn yr Ail Ryfel Byd
Cyfoeth bethau a thrysorau drud
Bugeilio mewn chwarel llawer llun
Oedd fwy o werth nac ef ei hun,
Y teulu brenhinol eu heiddo hwy
A guddwyd yno yng nghrombil plwy
Rhag i'r Germans ddod yn llawn nerth
A dwyn y cyfoeth mawr ei werth
Pa ots am fywyd ynghanol y drin
Pwysicach arbed cyfoeth y Cwîn.



**Chwarel Rhiwbach**

Chwaer bentref i Gwmorthin tybiaf, gyda sawl inclên a thai wedi dadfeilio yno. Hen bentref a'r sôn fod y brifathrawes yn cael ei chludo yno o'r Manod yn y bore a'i hebrwng adref yn y cert gwyllt gyda'r nos, rwan dyna be ydi ymroddiad!

**Cwm Penmachno**

Tŷ ar ôl tŷ yn dŷ haf yn ôl y sôn. Yn anffodus mae maint a phrisiau y tai stryd chwareli yma wedi bod yn ddelfrydol i'w troi yn dai haf. Trist. Ond gobeithio fod cnewyllyn o Gymru yn dal yma. Cysur

**Cwm Penmachno**

Mae'n echnos, Cwm Penmachno- a minnau
Sy'n myned i grwydro
Ond yn y gwyll dwyn i go'
Yn unig yw'r iaith yno.

A gorffen y dydd i lawr y lôn ym Mhenmachno. **Arwel Emlyn**

# Cornel y Plant

## Gwyliau Haf : 'Fy Ngobeithion'

Hoffwn weld..

Hoffwn ddysgu...

•


•

•

Hoffwn fwyta...

Hoffwn wneud...


Hoffwn fynd i ...



## Chwilair Yr Haf

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| s | t | ŵ | u | l | l | u | a | h | i | l | e |
| b | ô | e | i | u | e | d | ŵ | s | c | ô | h |
| e | i | l | a | e | f | o | i | c | y | s | c |
| c | ô | h | c | h | a | g | s | y | b | a | w |
| t | r | a | e | t | h | w | n | s | e | r | l |
| o | h | ŵ | k | a | g | a | d | g | h | a | e |
| l | a | l | u | h | o | h | g | o | c | p | o |
| h | c | w | l | e | g | o | i | d | r | i | d |
| a | s | ô | ŵ | t | t | w | h | w | i | g | l |
| u | d | t | r | d | s | y | r | r | t | o | u |
| l | r | h | c | d | b | ŵ | g | e | o | h | d |
| ŵ | a | e | t | w | d | h | ô | e | s | l | a |

| | | |
|---|---|---|
| haul | het | haf |
| parasôl | diod | cysgod |
| eli haul | gwres | diogelwch |
| dŵr | traeth | sbectol haul |



Sut haf a gawsoch chi?
Rhowch wybod i ni erbyn rhifyn mis Hydref o'r Bigwn.

# Ysgol Twm o'r Nant

Da ni gyd yn ôl yn yr ysgol wedi hanner tymor prysur yn Eisteddfod yr Urdd. Gyda chanran uchel iawn o blant yr ysgol wedi ymweld â'r Eisteddfod, roedd gan sawl un stori o'r hyn yr oeddent wedi ei weld a mwynhau. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran a llongyfarchiadau arbennig i Beatrice ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Unawd Bl 5 a 6 a Mabli am ddod yn ail yng nghystadleuaeth tecstiliau creadigol Bl 2 ac iau yn y Babell Celf a Chrefft.








Daeth Mrs Nia Hughes o Llaethdy Llwyn Banc atom. Fe fuon ni yn gwylio ffilm o Rhys yn godro'r gwartheg. Cawsom flasu ysgytlaeth blas banana, mefus a siocled a phleidleisio am ein hoff flas. Roedd 6 yn hoffi mefus, 9 yn hoffi siocled a 4 yn hoffi banana.

Rydym wedi derbyn 10 poster arddangos lliwgar i'w gosod ar fuarth yr ysgol gydag arian y Siarter Iaith. Ein bwriad yw codi faint o Gymraeg fydd y plant yn siarad ar y buarth a hefyd caiff ein rhieni di-Gymraeg y cyfle i ddysgu ambell air wrth aros am eu plant ar ddiwedd y dydd gobeithio.



Ar ddiwedd tymor diwethaf daeth Trebor Roberts i'r ysgol gyda'i dractor. Roedd pawb wedi dotio yn gweld y tractor mawr glas ar fuarth yr ysgol a chael eistedd yn y sedd gyrru fel ffarmwr go iawn! Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ein diwrnod Mabolgampau a'n trip i Sw Bae Colwyn.




**Uned dan 5**

Wel dyma ni ar drothwy ein hanner tymor olaf! Mae'r flwyddyn wedi hedfan! Ein thema hanner tymor yma ydy 'Mynd am dro.' Mae'n argoeli i fod yn gyfnod prysur a chyffrous gydag ymweliadau y disgyblion Meithrin newydd a diwrnod trosglwyddo i ddosbarthiadau newydd i'r disgyblion Meithrin a Derbyn presennol. Mae pawb yn gyffrous am symud ymlaen!
Ein hymweliad cyntaf oedd i Fferm y Goblyn yn Ninbych.
Wel am hwyl a gawsom yn ein milltir sgwâr. Byddwn yn bendant yn ymweld eto ! Cawsom sgwrs ddifyr gan Lesley a chyfle i hel y defaid, brwsio'r ferlen fach a gafael mewn crwban bach. Am hwyl!



**Uned dan 7**

Rydym wedi cael dechreuad gwych i'n thema newydd 'Ahoi, Môr Ladron!' Cawsom drafodaeth am yr hyn hoffai'r plant ddysgu o fewn y thema ac un o'r pethau oedd wedi codi oedd effaith llygredd yn y moroedd. Edrychodd y plant ar luniau o greaduriaid y môr sydd yn cael eu heffeithio gan blastig a llygredd. Cafodd y plant syniadau gwych am sut y gallen ni helpu gan ailddefnyddio plastig ac ailgylchu. Roedd rhai o'r plant eisiau casglu sbwriel o amgylch ardal yr Ysgol hefyd- da iawn chi blant! Dinasyddion egwyddorol! Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am fwyta'n iach a chawsom weithdai maeth arbennig gyda Mrs Jane Jones yn dysgu mwy am ddiet cytbwys inni. Diolch yn fawr. Rydym yn edrych ymlaen at ein gwaith mapio, helfa drysor, parti Môr Ladron a trip i SeaQuariwm, Rhyl sydd i ddod yn ystod gweddill y tymor.



**Uned dan 9.**







Thema ein heriau prynhawn oedd Jac a'r goeden ffa. Mae pawb wedi plannu hadyn ffa ac yn croesi bysedd y bydd pob un yn dechrau egino yn fuan. Mi brynodd Ms Williams blanhigion ffa wedi dechrau tyfu yn barod a'r gobaith ydi y bydden nhw yn tyfu yn dal yng ngardd yr uned nes eu bod yn cyrraedd castell y cawr!!






Wel dyma ni wedi cyrraedd hanner tymor olaf y flwyddyn ysgol: Bu'r plant yn pendroni yn galed ar ba thema yr hoffent astudio yr hanner tymor yma a daethant i fyny gyda sawl syniad penigamp, ond wedi pwyso a mesur a dod â'r holl syniadau at ei gilydd, penderfynwyd ar y thema Hud a Lledrith.
Rydym wedi dechrau drwy ddysgu am chwedl Blodeuwedd. Gwnaeth amryw bortread hardd o Blodeuwedd a creuwyd bwrdd stori i'r chwedl. Rydym yn y broses o ddilyn arddull enwog Pie Corbett o ddysgu'r chwedl ar ein cof gyda chymorth symudiadau.


Rydym yn edrych ymlaen yr wythnos nesaf i wneud gwaith ar Harry Potter gan obeithio meithrin ambell i ddewin neu ddewines yn ein plith. Mae'r plant yn gyffrous o gael llunio swyn neu ddracht eu hunain. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ein trip diwedd tymor i Bewilderwood yn Sir Gaer lle fydd ein hanturiaethau hud a lledrith yn parhau gyda'r corachod bach sydd yn byw yno.

**Uned dan 11**

Gyda'r haul yn gwenu arnom unwaith eto mae'n rhoi cyfle gwych i'r disgyblion ddangos eu doniau gan gystadlu mewn sawl gweithgaredd chwaraeon. Roedd y tîm traws-gwlad wedi gwneud yn arbennig o dda, gyda phob disgybl a orffennodd y ras yn mynd i'r rownd nesaf yn y sir. Da iawn nhw! Yn ddiweddar roedd merched pêl-rwyd yr ysgol wedi gwneud yn arbennig o dda gyda'r ddau dîm yn mynd i'r gemau cynderfynol, ond yn anffodus dim ond un tîm yn cyrraedd y gêm derfynol ac yn cipio'r ail wobr. Ardderchog ferched!!
Gobeithio bydd tîm criced yr ysgol yn cael cystal hwyl wythnos nesaf. Croesi bysedd!
Ar ben yr holl waith, mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio yn arbennig o dda ar eu thema newydd, sef 'Cymeriadau digidol' wrth godio, ac ysgrifennu adolygiad. Maen nhw i'w gweld wrth eu bodd. Mae'r disgyblion wedi gweithio yn wych, ac mae sawl un wedi cael gwobr am fentro yn fwy yn y Gymraeg. Eu gwobr….Cinio blasus!



**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Gŵyl Tŷ Gwyrdd: Dathliad Cymunedol Dinbych Dydd Sadwrn 18 Mehefin

Gŵyl Tŷ Gwyrdd

Ar ôl dathlu ei ben-blwydd diweddar yn 1 oed, roedd y **Tŷ Gwyrdd** yn falch o gyhoeddi lansiad **Gŵyl Tŷ Gwyrdd** yn ystod penwythnos olaf Gŵyl Ganol Haf Dinbych. Cychwynnodd y gweithgareddau am 9am yn Eirianfa – gweithdai yoga, bwyd, chwilota, yr iaith Gymraeg a lles, a **Chynulliad y Bobl** gyntaf erioed Dinbych yn trafod 'Sut gallwn ni gryfhau ein rhwydweithiau bwyd lleol.' Roedd Neuadd y Dref



Mair yn annerch

Dinbych yn cynnig cyfuniad bywiog o artistiaid lleol, stondinau bwyd a diod, ac yna noson o gerddoriaeth fyw a DJ's yn Nhafarn y Guildhall yn dechrau o 5pm.
Gwahoddwyd pobl leol i ymuno â'r dathliad cymunedol o grewyr, gwneuthurwyr, cynhyrchwyr ac arloeswyr lleol, gan rannu sgiliau, gwybodaeth a syniadau, gyda'r nod o gryfhau'r rhwydwaith cymunedol, eu cysylltiad â'i gilydd a'r amgylchedd.
Cefndir **Y Tŷ Gwyrdd**: Mae'r **Tŷ Gwyrdd** wedi'i greu i gynnig gofod cynhwysol a chroesawgar i'r gymuned leol, i ddathlu a hyrwyddo'r bobl a'r mentrau ysbrydoledig yn Ninbych a'r cyffiniau, ac i helpu i leihau effaith y gymuned ar yr amgylchedd drwy gynnig opsiynau dim gwastraff fforddiadwy a hygyrch a chyfleoedd i hwyluso economi gylchol.
Hoffai'r **Tŷ Gwyrdd** ddiolch o galon i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth barhaus yn ystod blwyddyn gyntaf hynod gofiadwy. Nod **Y Tŷ Gwyrdd** yw darparu cynnyrch fforddiadwy, ecogyfeillgar, gan helpu i leihau deunydd pacio a gwastraff bwyd diangen a gyda'n gilydd leihau'r effaith ar yr amgylchedd.
Yn y flwyddyn gyntaf mae cwsmeriaid wedi arbed dros 3000 o boteli plastig rhag mynd i safleoedd tirlenwi! Mae cynlluniau yn mynd rhagddynt i ddarparu gwasanaeth cyflenwi gwyrdd. Diolch enfawr i gyflenwyr, llawer ohonynt yn lleol, am eu cynnyrch anhygoel y mae **Y Tŷ Gwyrdd** yn falch o'u cynnig.

Cysylltwch â / Marguerite Pearce, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gweithrediadau
Ffôn: 07954 521364
margi@ytygwyrdd.cymru




Cynulliad y Bobl

## Chris Hughes B.E.M.

' Yng nghanol mis Mai mi ges i a Nia wahoddiad i fynd i barti gardd y Frenhines ym Mhalas Buckingham.
Roedd hwn ar ôl i mi dderbyn gwobr am fy ngwaith fel ffisiotherapydd yn y tîm anabledd dysgu yn Wrecsam, yn enwedig am y gwaith gyda phobl ag anawsterau dwys.
Mi roedd o'n deimlad rhyfedd braidd mynd i'r palas gyda 8,000 o bobl eraill oedd wedi cael eu gwahodd am eu gwaith yn y gymuned.
Mi gawsom ni bnawn bendigedig o braf, yr haul yn tywynnu drwy'r pnawn. Doedd dim angen ambarel- yn wahanol i'r ddau barti arall gafodd eu cynnal y flwyddyn yma !!
Er bod y prynhawn mewn ffordd yn ffurfiol, roedd yr awyrgylch yn anffurfiol a phawb yn gyfeillgar iawn. Digon o deisennau, brechdanau a phaneidiau o de - yn anffodus, dim Prosecco !!! ' **Chris Hughes** (llun t.2)

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop lleol yn gwerthu cardiau, anrhegion a pethau vintage.
DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**Niferoedd uchaf erioed yn mynychu Eisteddfod yr Urdd 2022**

**Wedi hir ymaros, croesawyd miloedd o blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy giatiau Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych ac i'r digwyddiad celfyddydol cenedlaethol mwyaf i ieuenctid Cymru ers cychwyn y pandemig. Roedd mynediad i'r ŵyl am ddim eleni, a gwelwyd 118,000 yn heidio i'r Maes.**

Camodd miloedd o gystadleuwyr o bob cwr o Gymru ar lwyfannau tri o bafiliynau'r Eisteddfod wrth i'r Urdd gynnig 'llwyfan i bawb' am y tro cyntaf, arbrawf sydd, yn ôl trefnwyr yr ŵyl, wedi bod yn "llwyddiant ysgubol."

Meddai **Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd**: "Rydym yn hynod ddiolchgar i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles a Llywodraeth Cymru am ei gwneud yn bosibl i ni gynnig mynediad am ddim i bawb i faes yr Eisteddfod eleni. Mae mynediad am ddim wedi arwain at ddenu mwy o ymwelwyr a chystadleuwyr o bob cwr o Gymru, a braf gweld gymaint o amrywiaeth ar faes yr ŵyl. Mae hi wir wedi bod yn Eisteddfod i bawb."

Dywedodd **Siân Eirian, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau:** "Fel trefnwyr rydym ni'n falch fod yr arbrawf o gael tri phafiliwn yn hytrach na un, a chynnig llwyfan i bawb, wedi'i groesawu gan ein cystadleuwyr ac yn llwyddiant ysgubol. Byddwn yn parhau gyda'r datblygiad yma wrth drefnu Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023.

"Mae sawl elfen newydd a chyffrous arall wedi eu cyflwyno ar Faes yr Eisteddfod eleni, ond fel unrhyw ŵyl gwerth ei halen, mi fydd yr Urdd yn asesu a gwerthuso pob datblygiad cyn penderfynu pa elfennau newydd eraill sy'n cael eu hymgorffori flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol.

"Mae ein diolch yn fawr i'r holl athrawon, hyfforddwyr, rhieni a gofalwyr am weithio'n ddiflino wrth ddysgu, creu ac hyfforddi'r cystadleuwyr dros y misoedd diwethaf, a sicrhau safon a llwyddiant yr Eisteddfod arbennig hon. Hoffwn hefyd ddiolch i'n noddwyr a'n partneriaid am eu cefnogaeth ac wrth gwrs i'r holl staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith di-baid."

Cafwyd 185 o oriau o gynnwys o faes yr Eisteddfod ar draws llwyfannau S4C, ynghyd â chynnwys amrywiol drwy gydol yr wythnos ar BBC Radio Cymru, Radio Cymru 2 a BBC Cymru Fyw.

Datblygiad arall yn Eisteddfod yr Urdd eleni oedd Gŵyl Triban, sydd wedi ac yn parhau i fod yn llwyddiant mawr i drefnwyr yr ŵyl. Fel rhan o ddathliadau'r canmlwyddiant roedd arlwy Gŵyl Triban yn gyfle gwych i adlewyrchu cerddoriaeth gyfoes Cymraeg, ond hefyd yn gyfle i ddathlu perfformwyr a chaneuon y gorffennol, ac yn blethiad perffaith o'r hen a newydd. Roedd ardal Garddorfa dan ei sang gyda chynulleidfa'n chwerthin a mwynhau perfformiadau risqué a chaboledig Cabarela ar y nos Iau.

Nos Wener, gwelwyd Tara Bandito yn cael ei hymuno ar lwyfan gan Eden, fel syrpreis i bawb a bu i Yws Gwynedd gloi'r noson gyda'r ffefryn Sebona Fi. Roedd perfformwyr Nos Sadwrn yn cynnwys N'Famady Koyuate, sy'n cael ei ddylanwadu gan Mandingue Affricanaidd, jazz gorllewin Ewrop, pop, indie a ffync. Fel rhan o arlwy nostalgia Gŵyl Triban, bu Tecwyn Ifan a Dilwyn Siôn yn perfformio cyn i Adwaith ac Eden gloi'r noson.

Roedd teilyngdod ym mhob un o brif seremonïau'r Eisteddfod. Ar ddechrau'r wythnos cyhoeddwyd mai Shuchen Xie, 12 oed, o Gaerdydd oedd enillydd Prif Gyfansoddwr Eisteddfod yr Urdd 2022 - y person ieuengaf erioed i ennill Prif Wobr yr Urdd yn hanes yr Eisteddfod. Josh Osborne o Poole enillodd Medal y Dysgwyr ag Anna Ng o Gaerdydd oedd enillydd Medal Bobi Jones. Bu i Osian Wynn Davies o Lanfairpwll ennill y Fedal Ddrama, Ciarán Eynon o Landrillo-yn-rhos, Sir Conwy ennill y Gadair a choronwyd Twm Ebbsworth o Lanwnnen, Ceredigion fel Prifardd yr ŵyl.

Cyhoeddwyd enwau'r tri chystadleuydd lwcus fydd yn cael perfformio yng Ngŵyl Cymru Gogledd America yn Philadelphia fis Medi: Siriol Elin (Cylch Bro Aled, Conwy), Manon Ogwen Parry (Adran y Fro, Bro Morgannwg) a Tomos Gwyn Bohana (tu allan i Gymru). Y côr fydd yn cynrychioli'r Urdd fel côr swyddogol Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad ym Mirmingham fis Awst fydd Côr Dyffryn Clwyd.

Mae panel o feirniad hefyd wedi dewis y chwe chystadleuydd mwyaf addawol o fewn y categori oedran hŷn o dan 25 oed, i ymgeisio am Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2022 yn yr hydref. Y chwech fydd yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni fydd: Fflur Davies (Cylch Arfon), Gwenno Morgan (Aelwyd Llundain), Ioan Williams (Adran Bro Taf), Mali Elwy (Adran Bro Aled), Owain Rowlands (Aelod Unigol Blaenau Tywi) a Rhydian Tiddy (Cylch Blaenau Tywi).

Mae'r Urdd yn falch o gyhoeddi mai Gwenan Mars-Lloyd (Sir Ddinbych) a Nansi Rhys Adams (Caerdydd a'r Fro) sy'n derbyn Ysgoloriaeth yr Eisteddfod eleni - ysgoloriaeth a wobrwyir i'r cystadleuwyr mwyaf addawol yn yr oedran blwyddyn 10 a dan 19 oed.

Catrin Jones o Lanwnnen, Ceredigion oedd enillydd Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed (a roddir drwy garedigrwydd y diweddar Dr Dewi Davies a'i deulu) a dyfarnwyd y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed i Nel Thomas o Gaerdydd (rhoddir y Fedal gan **Bapur Bro Y Bigwn**).

Y flwyddyn nesaf, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Gâr rhwng 29 Mai a 3 Mehefin 2023

Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

# Nia yn gwirfoddoli yn y Gambia

SAAMA
SPONSORING ACADEMIC AND MEDICAL ACCESS
CHARITY REGISTRATION NUMBER: 1149006



Nia a’r teulu a’r bocsus yn barod

Mae wedi bod yn freuddwyd gennyf fynd i Affrica i wirfoddoli ers pan yn ifanc, ond ddaeth y cyfle ddim. Ar ôl colli fy ngŵr ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, penderfynais y llynedd roi rhywbeth positif yn ôl ar ôl i ffrindiau fod mor arbennig hefo ni fel teulu yn ein colled.

Mi rydw i’n noddi geneth fach o’r enw Isatu yn y Gambia ers ychydig. Mae hyn yn ei galluogi i allu cael addysg, gwisg ysgol, ac adnoddau fel pensiliau a gwerslyfrau. Ar ôl cryn holi a gwneud gwahanol ymholiadau, dyma fi ar fin cychwyn ar fy nhaith i helpu i allu rhoi dillad, blancedi, hetiau ac





yn y blaen i’r babanod. Mae marwolaethau ar ôl geni yn uchel iawn yn y Gambia am nifer o resymau megis diffyg trafnidiaeth i ysbytai mewn amser, sepsis a heintiau. Mae clinic yno sydd drws nesaf i’r ysgol lle mae Isatu yn mynychu. Yn y clinic, maent yn rhoi cymorth i’r gofalwyr sydd yn edrych ar ôl y babis a’r plant drwy roi llaeth fformiwla, clytiau, eli ac, wrth gwrs, dillad i’r babanod a’u gofalwyr. Dyma’r lle rydw i am fynd dros y gwyliau ysgol i wirfoddoli a helpu.

Mae’r gymuned leol wedi bod yn brysur iawn yn codi pres tuag at yr elusen hanfodol yma, a gobeithio bydd y nwyddau wedi cyrraedd y Gambia mewn amser erbyn i mi gyrraedd yno ddiwedd mis Gorffennaf.

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi yr elusen yma!

**Nia Roberts**


PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â’ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk


## Difyrru Darllenwyr Dinbych a’r fro!

Ydych chi yn hoff o adlonni? Beth am yrru unrhyw ddarn o waith creadigol megis darn o farddoniaeth neu ryddiaith er mwyn difyrru darllenwyr Dinbych a’r fro. Gyrrwch eich gwaith i’r e-bost canlynol: gwybod”ybigwn.cymru.

Y BIGWN

## YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i’r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi’r ymateb yn bositif i unrhyw un o’r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)

# Gweinidog y Gymraeg yn canmol Menter Iaith Sir Ddinbych am "arloesi ym maes technoleg ddigidol"

Gyda bron i 300 o blant a phobl ifanc wedi troi at y Gymraeg i fwynhau sesiynau gemau fideo ar-lein, diolch i Menter Iaith Sir Ddinbych, dywedodd **Jeremy Miles**, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ei "bod hi'n wych gweld y gwaith mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn ei wneud."

Rhannodd y Gweinidog ei sylwadau wrth iddo weld plant a phobl ifanc yn mwynhau sesiynau'r gêm fideo, Minecraft yn y Gymraeg a ddatblygwyd gan y Fenter ar faes Eisteddfod yr Urdd, yn Ninbych, yn ddiweddar.

Mae gweld Menter Iaith Sir Ddinbych "yn arloesi ym maes technoleg ddigidol yn wych," meddai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru.

"Mae hi wedi bod yn grêt gweld y gwaith mae'r Fenter yn ei wneud," meddai.

Bu tri gwirfoddolwr ifanc yn cynorthwyo Menter Iaith Sir Ddinbych i ddangos y gwaith digidol ar feddalwedd Minecraft i'r Gweinidog yn ystod ei ymweliad. **Elis ap Gwynfor**, 14 o Gynwyd; **Mathew Jones**, 11, o Ruthun a **Meilir Morris**, 12, o Ddinbych.

Yn ôl Elis: "Mae gen i ddiddordeb mewn stwff digidol a dwi'n licio helpu a dangos i blant ac oedolion sut mae pethau'n gweithio. Dwi'n falch o'r cyfle i helpu Menter Iaith Sir Ddinbych."

I Meilir, y cyfle i wirfoddoli oedd yn bwysig. "Dwi'n hoffi gwirfoddoli, mae'n dda pan ti'n hŷn ac yn chwilio am swyddi ac mae chwarae gemau fideo yn lot o hwyl. Mae cael cyfuno'r ddau beth ar faes y Steddfod, yn grêt!"

Un sydd wedi cael budd mawr o waith y Fenter yw Mathew Jones a'i deulu. Mae Mathew yn dairieithog, mae'n siarad Sbaeneg, y Gymraeg a Saesneg.

I'w rieni di-Gymraeg, mae cael y cyfle i wirfoddoli i'r Fenter Iaith yn ffordd o roi rhywbeth yn ôl i elusen sy'n agos iawn at eu calonnau.




o'r chwith Elis ap Gwynfor (gwirfoddolwr), Ruth Williams (Menter Iaith Sir Ddinbych), Dewi Snelson, (Prif swyddog Menter Gorllewin Sir Gâr a hefyd yn Gadeirydd rhwydwaith y Mentrau Iaith), Jeremy Miles ( Gweinidog y Gymraeg ac Addysg) a Matthew Jones (gwirfoddolwr)

Menter Iaith Sir Ddinbych 6 Heigad, Dinbych LL16 3LE 01745 812822 www.misirddinbych.cymru Dilynwch ni www.twitter.com/MIDinbych
// Facebook Menter Iaith Sir Ddinbych



Mwynhau Minecraft

Yn ôl **Roxanna Jones**, mam Mathew: "Dwi'n wreiddiol o Piura ger Peru yn Ne America. Des i Gymru 14 mlynedd yn ôl gyda'r teulu ac ymgartrefu yn y pen draw yn Rhuthun. Pan anwyd Mathew, roeddwn i'n benderfynol bod ganddo hunaniaeth gref, Cymreictod ei dad ac adnabyddiaeth o fy nhras Sbaenaidd innau.

"Roedd darganfod Menter Iaith Sir Ddinbych yn chwa o awyr iach i mi. Mae cymaint o ddylanwad Seisnig ac Eingl-Americanaidd ar ein plant oherwydd technoleg ddigidol, ffilmiau, y teledu, a ballu. Pan ddes i ar draws Menter Iaith, gwelais y cyfleoedd roeddynt yn eu cynnig i Mathew, i gryfhau ei Gymraeg, mwynhau defnyddio'r iaith y tu allan i'r stafell ddosbarth a dod yn rhan o griw o bobl ifanc oedd yn gwneud defnydd o'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae'n bwysig iawn iawn."

Yn ôl **Ruth Williams**, Menter Iaith Sir Ddinbych: "Cawson ni wythnos wych o weithgareddau ar faes yr Eisteddfod ac mae ein gwaith ni yn parhau bob wythnos o'r flwyddyn.

"Roedd yn braf agor cil y drws ar peth o'n gwaith i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, yn ystod ei ymweliad. Mae datblygu'r gêm Minecraft i Sir Ddinbych bellach yn talu ar ei ganfed, wrth i blant a phobl ifanc gael cyfleoedd i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Diolch i Loteri Treftadaeth, llwyddon ni i brynu adnoddau a gwneud gwaith ymchwil i ehangu'r ddarpariaeth roeddem wedi ei sefydlu pedair blynedd yn ôl. Mae Castell Dinas Brân, tref gaerog ganoloesol Dinbych a phentre Capel Celyn a foddwyd i greu Llyn Tryweryn i gludo dŵr i Lerpwl, wedi serennu yn y gêm. Ac yn ystod wythnos y 'steddfod, cafodd y plant yr her o ail adeiladu Priordy Dinbych a Chastell a thref gaerog canoloesol Dinbych.

Elfen arall o waith digidol y Fenter yw'r Clwb Gemau Fideo a sefydlwyd yn wreiddiol yn ystod y cyfnod clo yn 2020. Trwy ddefnydd o Zoom a llwyfannau cymdeithasu digidol eraill, daeth cyfle i blant a phobl ifanc gyd-chwarae gemau amrywiol ar-lein, gyda swyddogion y Fenter yn cydlynu trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Erbyn hyn, rydym yn cydweithio'n agos â Mentrau Iaith ar draws y gogledd ac mae

clybiau gemau fideo bellach yn cael eu cynnal yn fisol i grwpiau oedran cynradd ac uwchradd.
Ychwanegodd Ruth: “Mae llwyddiant y Clwb Gemau Fideo wedi bod yn chwa o awyr iach. Bwriad y Clwb oedd newid y profiad Seisnig o chwarae gemau fideo i fod yn weithgaredd cymdeithasol Cymraeg ei iaith a’i naws.”
“Trwy fynd i fyd plant a phobl ifanc, mae modd dylanwadu ar yr iaith chwarae a chynnig profiad newydd iddynt i rwydweithio â chyfoedion, gosod heriau i’w gilydd, gweithio mewn tîm a chyrraedd chwaraewyr ledled y gogledd. Rydyn ni’n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cydweithio â ni.”
Am fwy o wybodaeth am waith Menter Iaith Sir Ddinbych, cysylltwch â Ruth neu Gwion ar 01745 812822 neu e-bostiwch menter@misirddinbych.cymru

## Dach chi’n siarad Cymraeg yn rhugl?

Dach chi’n awyddus i helpu pobol sy’n dysgu Cymraeg?
Mae Siarad yn gynllun i helpu dysgwyr sy’n gallu cynnal sgwrs am fywyd pob dydd ac sy eisiau ymarfer. Dan ni’n chwilio am siaradwyr sy’n fodlon rhoi ychydig o’u hamser i’w helpu nhw feithrin hyder a defnyddio mwy o Gymraeg. Mae pob gwirfoddolwr dros 18 oed, yn cwrdd mewn llefydd cyhoeddus neu ar Zoom. CHI sy’n dewis lle a phryd dach chi’n cyfarfod. Dyma ffordd ymarferol, hwylus, i helpu pobol sy’n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i ddod yn rhugl.
.Mae’n bwysicach nag erioed ar ôl yr 20 mis diwetha, lle mae hi wedi bod mor anodd i’r rhai sy’n dysgu Cymraeg ddefnyddio’r iaith yn gymdeithasol.
Mae cynllun **Siarad** yn gynllun cenedlaethol sy’n rhedeg ers 4 blynedd. Daeth y syniad yn wreiddiol o Gatalunya, lle mae miloedd o siaradwyr Catalaneg yn paru efo unigolyn sy’n dysgu’r iaith, er mwyn eu helpu i ddod yn rhugl drwy ddefnyddio’r iaith y tu allan i’r dosbarth.
Dan ni’n gofyn i bobol ymrwymo i siarad efo unigolyn sy’n dysgu am **ddim ond 10 awr** o fewn blwyddyn. Chi, y siaradwr rhugl sy’n penderfynu lle, pryd a sut dach chi’n cyfarfod – mewn cymdeithas Gymraeg, mewn caffi neu dafarn, wrth fynd am dro i rywle cyhoeddus, ar -lein – neu gyfuniad o’r rhain.
Y cwbl sy raid i chi wneud ydy cofrestru ar www.dysgucymraeg.cymru, (mi gewch chi lawer mwy o wybodaeth am y cynllun ar sleid SIARAD), dewis eich darparwr lleol, a byddan nhw’n cysylltu efo manylion cyswllt dysgwr fydd, gobeithio, yn eitha tebyg i chi o ran diddordebau, oedran ac argaeledd.
Wrth gwrs, ar ôl i chi gofrestru, os oes ganddoch chi ffrind sy wedi cael partner Siarad hefyd, be am drefnu i gyfarfod efo’ch gilydd? Yn enwedig mewn digwyddiad sy’n cael ei drefnu gan y Fenter Iaith, neu ddrama/ cyngerdd Cymraeg.
Llynedd mi gofrestrodd dros 250 pâr dros Gymru er gwaetha’r pandemig, ond roedd ‘na restr aros o ddysgwyr ym mhob ardal gafodd eu siomi gan fod na ddim digon o wirfoddolwyr. Nhw fydd yn cael blaenoriaeth eleni. Mae’r dysgwyr yma i gyd yn lefel Canolradd neu Uwch, felly maen nhw i gyd yn medru cynnal sgwrs. Does dim angen i chi boeni am safon eich Cymraeg – nid tiwtor ydach chi, ond siaradwr naturiol sy’n rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn anffurfiol.
Mi fydd na ambell ddigwyddiad cenedlaethol rhithiol lle byddwch chi’n cael gwahoddiad, sy’n rhoi cyfle i gychwyn sgwrs yn eich cyfarfod nesa ella.
Mi fasen ni’n gwerthfawrogi’n fawr tasech chi’n ystyried dod yn rhan o’r cynllun.
Ewch ar y wefan i weld mwy am y cynllun, a gobeithio’n wir gwnewch chi ystyried cofrestru.
Os oes gynnoch chi gwestiynau, croeso i chi fy ebostio ar eirian.conlon@dysgucymraeg.cymru
Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cymorth!
Eirian Wyn Conlon, Cydlynydd y Cynllun, y Ganolfan Dysgu Cymraeg.

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru
DBP
DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i’n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

## Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws

Arweiniwyd gwasanaethau Bore Sul Mai 1af, Mai 15fed. a'r 22ain. gan ein Gweinidog.

Bore Sul Mai 8fed. roedd oedfa undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Pendref gyda Rhianwen Williams a Richard Snelson yn ein cynrychioli. Diolch i Cheryl am drefnu'r gwasanaeth.

Yn anffodus mae Aelwyn Lloyd, Maes Gwyn, wedi cael codwm ac wedi torri'r pelfis.

Rydym yn cydymdeimlo yn fawr iawn gyda John Geraint Jones ac Eiri yn eu profedigaeth. Mae John Geraint wedi colli ei chwaer oedd yn byw yn Llanfair ger Harlech ac mae Nia Angharad wedi colli modryb.

Bore Sul Mai 29ain. roedd Gwasanaeth Agoriadol Eisteddfod yr Urdd 2022 yn y Capel Mawr. Roedd pobl ifanc dalgylch yr Eisteddfod yn cymryd rhan gyda Chôr Cytgan Clwyd a Chôr Aelwyd Dyffryn Clwyd.

Bore Sul Mehefin 5ed. roedd Oedfa'r Fro yn Eglwys y Pentre dan ofal y Gweinidog a gwasanaeth y Sul canlynol, Mehefin 12fed. yn y Capel Mawr gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu.

Bore Sul Mehefin 19eg. Y Parch Bernard Thomas oedd yn gwasanaethu ac fe wnaeth Mrs. Carolyn Thomas estyn croeso iddo a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mr. Eddie Hughes, Llwyn Banc. Roedd Eddie Llwyn Banc fel roedd pawb yn ei adnabod wedi dod yn aelod yn yr Eglwys Unedig ond roedd wedi ei fagu yng Nghapel Y Brwcws ac ef wnaeth gloi drws y capel am y tro olaf ar yr 20fed o Chwefror.

Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn ôl ei ddymuniad yn Amlosgfa Llanelwy bore Dydd Gwener, Mehefin 10fed.

Rydym yn cydymdeimlo yn gywir iawn gyda Mrs. Megan Hughes, Nia, Wyn a'u teuluoedd yn eu colled.

Y mae rhai o aelodau'r Eglwys wedi bod ac yn dal i fod yn fregus eu hiechyd. Mae rhai wedi bod yn yr ysbyty a rhai yn eu cartrefi. Brysiwch wella.

## Gobaith

Dydi henaint yn andros o beth! Y gwallt yn troi yn llwyd, y clyw yn dirywio ac angen lamp i fedru darllen y papur newydd. Hwyrach fod y ffaith fy mod yn darllen papur newydd yn y lle cyntaf, yn dangos fy oedran? Wedyn mae sylweddoli fod digwyddiadau hanesyddol dwi'n eu cofio fel ddoe erbyn hyn yn deillio'n ôl hanner canrif ( fel glanio ar y lleuad). Fel mae amser yn gwibio heibio!

Ond mae yna obaith i ni i gyd. Dyna mae'r 5ed o Fehefin 2022 yn ei brofi. Dwi'n rhy ifanc i gofio Cymru yn chware ym Mhencampwriath Cwpan y Byd! Haleliwia! Yn anffodus, doedd hi ddim yn bosib i mi wylio'r gêm yn fyw ar y teledu gan i mi deithio i Ganada ychydig ddyddiau'n gynharach. Ond diolch i dechnoleg, roeddwn yn gallu dilyn y sefyllfa o funud i funud. Yn eironig, roedd y straen yn ddigon i wneud i mi heneiddio yn fwy fyth! Wrth lwc, doedd dim siom arall y tro hwn. Ymlaen â ni rwan i Qatar - gwlad y Gucci tu ôl y burka ddu, dynion cyfoethog yn gwisgo llian sychu llestri ar eu pennau, gwres llethol, tywod melyn, glaswellt gwyrdd, Ferrari a Lamborghini bron ar bob stryd a gweithwyr tlawd o Bangladesh a'r Philippines yn lladd eu hunain yn adeiladu er mwyn gyrru ychydig o arian yn ôl i'r teulu. Fe allaf gadarnhau nad yw hi'n wlad deg, ond mae'n rhaid cau un llygad y tro yma i ni gael mwynhau gweld Bale a Ramsey yn herio'r byd. Os oes angen disgwyl trigain mlynedd arall, fe fyddaf yn sicr yn rhy hen i'w gweld y tro nesaf!

**Dewi Rogers**

## Er Cof am Freda Pierce

Trist oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth Freda Pierce o Gartref Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn. Freda oedd un o ddarllenwyr hynaf Y Bigwn ac fe gawsom sawl erthygl ganddi o bryd i'w gilydd. Golygai Dyffryn Clwyd a'r Bigwn gymaint iddi gan ei bod wedi treulio sawl blwyddyn yn byw yn Rhuthun a Dinbych yn y 40au a'r 50au ac wedi mynychu Ysgol Ramadeg Dinbych (1944-1951).
Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.


Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk



CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

# O’r diwedd !



“Mi yda ni ar ein ffordd i Gwpan y Byd, i rannu llwyfan hefo’r goreuon, fedrai ddim disgwyl”, dyna oedd yn mynd trwy fy meddwl wrth deithio am Anfield o Gapel Garmon mewn Triumph Dolomite hefo fy nhad, Yncl Griff Maes-y-Groes ac Elwyn Jones Y Siop, ym Mis Hydref 1977. Buddugoliaeth i dîm Mike Smith yn ninas Lerpwl ac mi fuasai Cymru drwadd i Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd Ariannin, 1978. Yn anffodus yng nghanol y degau o filoedd o giltiau ar y Kop y noson honno chafwyd yr un "triumph" i Gymru. Diolch i law slei Joe Jordan roedd yr Ariannin yn edrych yn bellach o'r henwlad nag yr oedd hyd yn oed i deithwyr y Mimosa adawodd y ddinas 112 o flynyddoedd cyn hynny !

Daeth siomedigaethau Cwpan y Byd eraill ym Mharc Ninian 1985 (yn erbyn yr Alban eto), a Stadiwm Genedlaethol 1993 yn erbyn Rwmania i brofi dycnwch cefnogwyr Cymru ymhellach.

Felly am saith o’r gloch ar nos Sul y pumed o Fehefin eleni, yng nghanol y dathlu a’r gorfoledd yn Stadiwm Dinas Caerdydd a charfan Cymru yn "backing vocals" i Dafydd Iwan, fe aeth fy meddwl yn ôl 45 mlynedd ac i’r Kop yn Anfield. Rwan roeddwn yn gallu tynnu llinell ac anghofio am anghyfiawnder y noson honno, y cwrw yn tasgu wrth i’r Albanwyr ddathlu’r gic o’r smotyn gan Don Masson, a nhad, ar ôl bod yn y toiled hanner amser, yn methu dod nôl mewn i’r teras am ei bod hi mor llawn !

Er mor dda oedd rhai o dimau Cymru, ac yn sicr rhai unigolion, yn y gorffennol, mae yna hyder newydd wedi datblygu ers gwneud cystal yn yr Ewros yn Ffrainc yn 2016. Y Wal Goch, Gyda’n Gilydd yn Gryfach ac Yma o Hyd, a chwaraewyr ifanc yn cymryd eu lle yn rhwydd wrth i’r garfan esblygu. Y cyfan yn deillio o sylfeini cadarn Gary Speed, Osian Roberts a Chris Coleman. O ganlyniad i'r undod, gyda Chymru dan bwysau anferthol yn y gêm yn erbyn Wcráin roedd yna deimlad na fydda ni’n ildio tro yma, a dyna ddigwyddodd. Pawb fel un. Y trueni ydi na fydd llawer o’r Wal Goch yn gallu bod yn Qatar yn y rowndiau terfynol, ond mi allwn ddibynnu ar y garfan a’r cefnogwyr fydd yno i’n gneud ni gyd yn falch o gael teithio mewn "Triumph" unwaith eto !

A gyda llaw, braf oedd cael rhoi’r deyrnged yma i chwaraewyr Cymru yng nghyflwyniad agoriadol Ar y Marc ar Radio Cymru ar y bore Sadwrn canlynol… dyma ran ohoni:

“Roedd pawb yn *Wayne* o glust i glust ar y diwedd a phwy ddeudodd mai *Hen-es-i* medda'r golwr. Roedd Davies-*Ben* ac ysgwydd uwchlaw pob un, ac Wcráin bron a *Neco* mwy nag un gol. *Rodon* nhw Gymru *Dan* bwysau ac *Ethan* nhw'n agos sawl gwaith. Mi gatha nhw saith *Connor*, pedair gafodd Cymru.

*Aaron* ni *Moore* falch o weld y *Bale* yn mynd i'r rhwyd o'r gic rydd yna....

*A-lan* heibio'r golwr. Ia tudalen newydd i bêl-droed Cymru, diolch i *Page*.”

Yr unig gwestiwn rwan ydi, a fydd bunting Eisteddfod yr Urdd … Yma o Hyd yn Ninbych ar gyfer Cwpan y Byd ? !

Gwyliwch y Golia !

**Dylan Jones**

J&G | Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

# Cymru v Wcráin

Wedi hir aros oherwydd y rhyfel yn yr Wcráin, dyma'r dydd yn cyrraedd i'r gêm dyngedfennol i sicrhau lle yng Nghwpan y Byd yn Qatar.
Wedi siwrne gyfforddus i Gaerdydd, ymuno â'r dorf yn heidio yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Roedd y tensiwn i'w deimlo yn glir a phawb yn ysu am i'r gêm gychwyn.
Cyrraedd ein seti mewn digon o bryd, tua 40 munud cyn i'r gêm gychwyn, a chanfod fod y rhan fwyaf o'r cefnogwyr yno o'n blaen, rhywbeth sydd ddim yn digwydd yn aml.
Tua 20 munud cyn i'r gêm gychwyn, dyma Dafydd Iwan yn dod allan i ganu, y gân sydd nawr yn ffefryn gyda chefnogwyr Cymru, sef, "Yma o Hyd." Roedd y dorf i gyd yn canu'r gân hefyd ac roedd yr awyrgylch yn y stadiwm yn drydanol. Pawb nawr yn disgwyl yn eiddgar am gychwyn y gêm.
Y chwaraewyr yn dod allan i'r cae ac anthemau cenedlaethol y ddau dîm yn cael eu canu, anthem yr Wcrain gyntaf a chymeradwyaeth teilwng gan gefnogwyr Cymru."Hen Wlad Fy Nhadau" yn ail, cefnogwyr Cymru yn frwdfrydig iawn a braf oedd gweld cefnogwyr yr Wcrain yn eu cymeradwyo.
Cychwyn y gêm a'r ddau dîm yn chwarae'n dda iawn. Yr Wcrain oedd y tîm gorau ar ddechrau'r gêm ond Cymru'n dod yn fwy i mewn i'r gêm ymhen ychydig. Cic rydd i Gymru ar ôl hanner awr a Gareth Bale yn sgorio gôl ffodus iawn wrth i'r bêl gymeryd gwyriad oddi ar un o chwaraewyr yr Wcrain. Y stadiwm yn gweiddi nerth eu pennau, a'r freuddwyd yn edrych ychydig yn agosach. Cyrraedd hanner amser ar sgor yn dal i fod 1 -0 i Gymru.
Yr ail hanner yn cychwyn a'r Wcrain yn chwarae'n well na Chymru a chael ambell i gyfle i unioni'r sgôr, ond diolch i amddiffynwyr Cymru, yn enwedig y gôl-geidwad Wayne Hennessey, y sgôr yn aros yr un fath. Amser ychwanegol yn dod a Chymru yn dal ar y blaen. Y dyfarnwr yn dod â'r gêm i ben ar ôl 5 munud o amser ychwanegol a'r dorf yn bloeddio'n uchel mewn rhyddhad. Roedd Cymru wedi cyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers 64 o flynyddoedd. Teimlad anghredadwy.
Arhosodd y rhan fwyaf o'r dorf ar ôl i'r gêm orffen er mwyn cymeradwyo'r chwaraewyr a daeth Dafydd Iwan ar y cae unwaith eto at y chwaraewyr a chanu "Yma o Hyd", gyda'r dorf yn ymuno hefyd.
Gêm gyffrous iawn a Chymru yn ddiolchgar iawn i'r gol-geidwad, Wayne Hennessey, am berfformiad arbennig. Fo oedd seren y gêm, heb unrhyw amheuaeth. Ben Davies hefyd yn cael gêm wych ac un o'r chwaraewyr ifanc, Neco Williams hefyd yn perfformio'n dda iawn.
Y siwrne adre yn teimlo'n llawer cynt oherwydd llawenydd y fuddugoliaeth.
I Qatar ym mis Tachwedd rwan i'r tîm gan edrych ymlaen yn hyderus at fod yn rhan o gyfnod newydd yn hanes pêl-droed Cymru. Buaswn yn hoff iawn o gael mynd yno i gefnogi'r tim ond bydd yn anodd iawn i gael tocynnau oherwydd dim ond 2500 fydd ar gael i gefnogwyr Cymru. Ond, pwy a ŵyr!!!!

**Arwyn Lloyd**

# PHIL BENNETT (1948 – 2022)


_Jeff Jenkins (Cadeirydd y Clwb ar y pryd) a Phil Bennett

Cawsom i gyd ein tristau wrth glywed y newyddion am farwolaeth Phil Bennett, un o fawrion y byd rygbi. Bydd gan bawb sy'n ymddiddori ym myd y campau atgofion am y dewin bach o Felinfoel yn ochr-gamu yn erbyn goreuon y byd – gan gynnwys y Crysau Duon ar fwy nag un achlysur!
Ond mae gan Glwb Rygbi Dinbych reswm arall i gael atgofion melys iawn ohono. Pam felly? Wel, Phil Bennett oedd y gwestai arbennig yn y cinio i ddathlu chwarter canmlwyddiant y Clwb yn Neuadd y Dref yn 2003. Roedd y Neuadd yn orlawn i ddathlu'r achlysur, a chawsom anerchiad hynod ddifyr a doniol gan y siaradwr gwadd. Roedd yn berson diymhongar ac yn ŵr bonheddig, oedd yn fodlon sgwrsio a chael tynnu ei lun efo pawb oedd yn gofyn – nid peth hawdd i'w wneud ar bob achlysur!


Heddwch i'w lwch.
**John Davies**

## Annwyl Olygydd, Swyddogion a Darllenwyr Y Bigwn

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dechrau symud i borfeydd newydd, hoffwn ddiolch i bawb am eich cefnogaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyrch Clwb Rygbi Dinbych am stiwardiaid maes parcio'r Eisteddfod. Roedd yn bendant ar ei ennill, gyda dros 160 o wirfoddolwyr yn ymgymryd â'r rôl stiwardio yn ystod yr wythnos. Pan oedd eu hangen, daeth y gymuned leol i'r amlwg gyda'i chefnogaeth a sicrhaodd fod y prosiect parcio ceir yn llwyddiant diamheuol.

Diolch o galon, Tegid Phillips

# Cwpan Y Byd 1958


John Charles

Atgofion niwlog braidd sydd gen i o Gwpan y Byd 1958 a hynny, mae'n debyg, oherwydd nad oedd y gystadleuaeth yn cael y math o sylw ag a gaiff heddiw.

Jack Kelsey, John Charles, Ivor Allchurch a Cliff Jones. Y rhain oedd yr enwau amlwg ymhlith tïm Cymru ym 1958, ond doedd neb yn rhoi fawr o sylw na gobaith i'r tïm.--

Wedi'r cyfan, fydden ni ddim yno oni bai nad oedd unrhyw un arall yn fodlon chwarae yn erbyn Israel. Fe ddywedodd y Gymdeithas Bêl-droed, "Fe wnawn ni," gan weld hwn yn gyfle i wneud ychydig o arian.

Dan reolaeth Jimmy Murphy, is-reolwr Manchester United, fe drechodd y Cymry nhw yn rhwydd.

Doedd gennym ni – fel y mwyafrif o bobl – ddim set deledu ym 1958, ond roedd cymdogion inni yn rhentu un o siop E. Bennett Williams yng Nghaernarfon.

Yn eu tŷ nhw gwelais ambell gêm gan mai ambell gêm yn unig a ddarlledwyd yr adeg honno – un gêm yn unig ymhob rownd o gemau.

Un ar bymtheg o dimau a gymerodd ran yn Sweden a dyma nhw i chi – Sweden (y wlad oedd yn cynnal y gystadleuaeth), Gorllewin yr Almaen (yr enillwyr ym 1954), Gogledd Iwerddon, Lloegr, Yr Alban, Cymru, Tsiecoslofacia, Yr Ariannin, Ffrainc, Iwgoslafia, Paraguay, Hwngari, Mecsico, Brasil, Yr Undeb Sofietaidd ac Awstria.

Sylwch, does yna ddim sôn am Sbaen, Yr Iseldiroedd, Yr Eidal na Gwlad Belg yn y rhestr uchod, a dyna'r unig dro i holl wledydd Prydain ymddangos yn rowndiau terfynol y gystadleuaeth.

Er i Loegr golli dau o'u chwaraewyr disgleiriaf yn nhrychineb Munich ychydig fisoedd ynghynt, sef Duncan Edwards a Tommy Taylor, roedd y wasg Brydeinig yn disgwyl iddynt ennill y gystadleuaeth. Wel, dyna'r argraff a gefais i fel bachgen ifanc. Wedi'r cyfan, roedd ganddyn nhw Bobby Charlton, Billy Wright a Johnny Haynes.

Ond ar ôl tair gêm gyfartal yn eu grŵp, colli yn y gêm ail gyfle yn erbyn yr Undeb Sofietaidd fu eu tynged.

Tair gêm gyfartal gafodd Cymru hefyd yn eu grŵp - yn erbyn Hwngari, Sweden a Mecsico – cyn curo Hwngari yn y gêm ail gyfle.

Yn anffodus, anafwyd John Charles, y cawr addfwyn, yn y gêm hon, ac ni allai chwarae yn erbyn Brasil yn rownd yr wyth olaf.

A phwy oedd yn aelod o dîm Brasil? Neb llai na Pele, y llanc disglair 17 mlwydd oed! Er brwydro'n ddewr, colli 1-0 wnaeth ein hogia ni gyda Pele yn sgorio'r gôl holl bwysig.

Yn anffodus, clywed sylwebaeth radio ar y gêm hon wnes i, ac wrth weld Pathe News yn y sinema roedd hi'n ymddangos yn gôl flêr iawn.

Yr hyn a gofiaf yn bennaf am gystadleuaeth 1958 ydy enwau rhai o'r chwaraewyr:-

Brasil - Gilmar, Santos, Didi, Pele, Vava a Garrincha

Gorllewin Yr Almaen – Uwe Seeler

Gogledd Iwerddon – Danny Blanchflower

Tsiecoslofacia – Masopust

Yr Ariannin – Frederico Edwards (sgwn i oedd ganddo gysylltiadau Cymreig?)

Ffrainc – Just Fontaine, Raymond Kopa

Hwngari – Hidegkuti

Yr Undeb Sofietaidd – Lev Yashin

Brasil enillodd y gystadleuaeth drwy drechu Sweden o 5 gôl i 2. Mae ganddyn nhw chwaraewyr dawnus y tro hwn ac fe fyddan nhw'n siwr o fod ymhlith y ffefrynnau.

Yn sicr, cawn weld mwy o'r gemau y tro hwn.

Gobeithion Cymru? Byddai'n hyfryd efelychu'r hyn a wnaeth carfan Ewro 2016, sef cyrraedd y rownd gyn-derfynol, ond byddai cyrraedd yr un ar bymtheg olaf yn gamp arbennig o ystyried y timau eraill sydd yn ein grŵp.

Oedd yna sticeri Panini ym 1958? Na, ond rwy'n siwr y bydd yna rai eleni. Fe fydda' i'n eu casglu ar gyfer y wyrion acw. Cofiwch gysylltu â mi os bydd gennych chi rai i'w ffeirio.

**Stan Lyall**


**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

# Be ddigwyddodd yng Nghymru yn 1958?

**Cymru a Chwpan y Byd**
Dyma oedd yr unig dro i dîm Cymru gyrraedd rowndiau terfynol y gystadleuaeth ac yr oedd i law ffawd ran yn y gamp honno.
Roedd y Cymry wedi gorffen yn ail yn eu grŵp rhagbrofol ond daeth ail siawns i'w rhan pan wrthododd un o'r gwledydd Arabaidd chwarae eu gêm yn erbyn Israel. Cymru a ddewiswyd o'r het i chwarae'r Israeliaid yn eu lle a gydag un fuddugoliaeth yn Tel Aviv ac un arall yn Nghaerdydd, roedd y crysau cochion ar eu ffordd i Sweden i'r rowndiau terfynol.
Dave Bowen o Nantyffyllon, un o sêr tîm Arsenal, oedd capten y tîm a oedd hefyd yn cynnwys y dawnus John Charles. Cyfres o gemau cyfartal a gafodd Cymru i ddechrau yn eu grŵp – 1-1 yn erbyn Hwngari, 1-1 yn erbyn Mecsico a 0-0 yn erbyn Sweden a'r chwarae at ei gilydd yn amddiffynnol a gweddol ddi-fflach. Gyda Sweden yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf o ennill y grŵp, bu rhaid i'r Cymry ail-chwarae Hwngari i weld pa un o'r ddau a gai ymuno â'r Swediaid yn yr wyth olaf. Gôl yr un gan Ivor Allchurch a Terry Medwin a sicrhaodd mai Cymru a fyddai'n cwrdd â Brasil yn y gêm nesaf yn Gothenberg.
Doedd neb yn rhoi fawr o siawns i Gymru ennill yn enwedig o gofio bod chwaraewr gorau'r tîm, John Charles, yn methu chwarae oherwydd anaf ond bu bron i Colin Webster eu rhoi ar y blaen pan fethodd gyfle i roi'r bêl yn rhwyd y Brasiliaid.
Anhap creulon ugain munud o'r diwedd a roddodd y fuddugoliaeth i Frasil gydag ergyd chwithig Pele, dim ond 17 oed ar y pryd, yn anfon y bêl oddi ar droed un o amddiffynwyr Cymru ac yn boenus o araf dros y llinell gôl. 1-0 oedd y sgôr ar y chwiban olaf. Bu dyfalu mawr wedyn a allai Cymru fod wedi ennill pe bai John Charles wedi bod yn holliach.
Aeth Brasil ymlaen i ennill y Cwpan gan guro Sweden yn y rownd derfynol o bum gol i ddwy.

**Gŵyl Cymru**
Cafwyd agoriad mawreddog yng Nghaerdydd i Ŵyl Cymru, gŵyl genedlaethol yn cynnwys gweithgareddau trwy Gymru i gyd. Fel rhan o lwyddiant yr Ŵyl, cofnodwyd bod 250,000 o ymwelwyr tramor wedi dod i Gymru yn ystod y flwyddyn, record newydd i'r wlad.

**Gemau'r Gymanwlad**
Cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd y tro cyntaf i'r gemau ddod i Gymru. Defnyddiwyd maes rygbi Parc yr Arfau fel y prif stadiwm ac ar Lyn Padarn wrth odre'r Wyddfa y cynhaliwyd y cystadlaethau rhwyfo.
Daeth un fedal aur (y bocsiwr Howard Winstone o Ferthyr Tudful), tair medal arian a saith medal efydd i ran Cymru, cyfanswm o un fedal ar ddeg i gyd, y nifer orau hyd hynny. Gemau Caerdydd oedd y rhai olaf hyd at y 90au i athletwyr o Dde Affrica gael eu gwadd iddynt oherwydd system wahanu hiliol y wlad.



Tîm Cymru 1958

**Teledu Masnachol i Gymru**
Daeth teledu masnachol i Gymru pan ddechreuodd Television Wales and the West (TWW) ddarlledu gyda 7 a hanner awr o raglenni. O'i stiwdios ym Mhontcanna, Caerdydd, darlledai TWW arlwy amrywiol o raglenni i dde Cymru a de orllewin Lloegr. Rhywfaint o ieuo anghymarus oedd priodas Cymru a de-orllewin Lloegr at ddibenion teledu gyda dwy gynulleidfa wahanol yn mynnu mathau gwahanol o raglenni.
Yn ddiweddarach cyhoeddwyd llythyr oddi wrth 16 o Gymry blaenllaw yn galw am greu sianel deledu ar wahan i wasanaethu Cymru.

**Ymddiswyddiad dramatig Huw T. Edwards**
Rhwystredigaeth yn ei anallu i ddylanwadu ar y llywodraeth yn San Steffan oedd yn gyfrifol am benderfyniad Huw T. Edwards i ymddiswyddo o gadeiryddiaeth Cyngor Cymru – corff y bu'n gadeirydd arno er 1949.

**Tsieina, Sir Gaernarfon**
Gweddnewidiwyd rhannau o Sir Gaernarfon i ymddangos fel cefn gwlad Tsieina yn y 30au, pan ffilmwyd 'The Inn of the Sixth Happiness' yn Eryri yn ystod y flwyddyn. Codwyd tai traddodiadol ym Meddgelert a daethpwyd â llu o actorion o dras Tsieineaidd i'r ardal ar gyfer y ffilm. Seren ryngwladol y sgrîn fawr, Ingrid Bergman, a chwaraeodd ran y genhades Gristnogol, Gladys Aylward.

**Dwy bont yng Nghonwy**
Casglwyd y doll olaf ar bont grog Thomas Telford yng Nghonwy ar 30 Tachwedd a phythefnos yn ddiweddarach caewyd hi'n gyfan gwbl. Agorwyd pont newydd yn ei lle ar 13 Rhagfyr. Pont o un bwa dur 310 troedfedd oedd hon. Prynwyd yr hen bont a'i hadfer gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 1965-66 a gadawyd hi a'r bont newydd i sefyll ochr yn ochr yn ymyl pont reilffordd Robert Stephenson.

**'Awyrgylch cadeirlan'**
Ar 22 Mehefin ailagorwyd un o drysorau pensaernïol pennaf yr Eglwys yng Nghymru sef Eglwys Gadeiriol Llandaf, ar ôl gorffen y gwaith o drwsio'r niwed a wnaed iddi yn ystod cyrchoedd awyr adeg y rhyfel.

Cydnabyddiaeth a diolch i **Llyfr y Ganrif** a **Gwasg y Lolfa**. gol.

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

# Maes yr Eisteddfod




Sylwen




Nia




Gwirfoddolwyr Y Bigwn




Cylch Meithrin Bodawen




Maiwenn




Richard




Ifor John, Ann a'r Teulu




Martha a Rhianwen




Cylch Meithrin Dinbych Uchaf




Delyth a Llifion

# Mwy o'r Maes



Mair a Sian



Annwen, Elis ac Eifion






Dafydd




'Snow in Summer'



Cangen Merched y Wawr, Dinbych



Gaynor ac Alyn



Elfed, Janet a'r teulu